Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi (STIEF) y Parc

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

9–19 Hydref 2023



# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Yr hyn sydd angen ei wella yn STIEF y Parc.................................................... 5

Gwybodaeth am STIEF y Parc ............................................................ 7

Adran 1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau ....................................................... 9

Adran 2 Arweinyddiaeth ................................................................ 12

Adran 3 Diogelwch ...................................................................... 14

Adran 4 Gofal .......................................................................... 23

Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol ......................................................... 35

Adran 6 Ailsefydlu ..................................................................... 45

Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf ...... 52

Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a’n hadroddiadau 54

Atodiad II Geirfa ....................................................................... 57

Atodiad III Rhagor o adnoddau ................................................ 59

# Cyflwyniad

Sefydliad Troseddwyr Ifanc yw STIEF y Parc ar gyfer bechgyn rhwng 15 ac 17 oed, sydd wedi'i leoli yng ngharchar llawer mwy y Parc ger Pen-y-bont ar Ogwr yn ne Cymru. Mae'n cael ei redeg gan y contractwr preifat G4S, ac mae'n gallu dal hyd at 46 o fechgyn ar ddwy uned ar wahân, er mai dim ond 28 oedd yn preswylio yno ar adeg ein harolygiad. O'r rhain, roedd tua thraean yn 18 oed, ond roeddent yn aros yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc oherwydd pwysau cenedlaethol ar y boblogaeth yn yr ystâd oedolion.

Fel y dengys yr adroddiad hwn a'n hymweliadau diweddar, y Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn y Parc yw'r gorau yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n feincnod ar gyfer y pedwar arall sydd yn weithredol ar hyn o bryd. Y tro diwethaf i ni gynnal arolwg, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i bobl ifanc yn erbyn pob un o'n pedwar prawf sefydliad iach yn dda, sef ein hasesiad uchaf. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod gweithgarwch pwrpasol wedi dirywio ac nad oedd bellach yn ddigon da. Fodd bynnag, roedd ansawdd y canlyniadau o ran diogelwch, gofal ac ailsefydlu wedi cael ei gynnal, ac roedd yn dal i fod yn dda, sy'n gyflawniad sylweddol.

Ar ôl cyfnod estynedig o arweinyddiaeth sefydlog a llwyddiannus, roedd y Sefydliad Troseddwyr Ifanc mewn cyfnod o drawsnewid. Roedd cyfarwyddwr newydd wedi'i benodi i arwain y carchar yn ei gyfanrwydd, ac roedd pennaeth newydd yr uned blant wedi'i benodi'n ddiweddar, ond roeddem yn falch o weld bod y newid hwn yn cael ei reoli'n dda. Yn benodol, roedd y diwylliant cefnogol a oedd yn cael ei brofi gan staff a phlant yn y Parc yn cael ei gynnal. Yn gyffredinol, roedd y bechgyn yn cael amser rhesymol allan o'u celloedd, ac roedd rhaglen wych ac arloesol o weithgareddau cyfoethogi. Fodd bynnag, roedd ein cydweithwyr yn Estyn o'r farn bod cwricwlwm mwy cyfyngedig a gwendidau yn ansawdd yr addysgu yn golygu bod y ddarpariaeth addysg wedi dirywio i fod yn 'ddigonol', a oedd yn tanseilio ein hasesiad cyffredinol ar gyfer gweithgarwch pwrpasol. Nodwyd y pryderon hyn ac mae trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth addysg yn cael eu datblygu.

Roedd Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn sefydliad diogel a chafodd bechgyn eu trin yn dda, gyda gofal da o'r eiliad y maent yn cyrraedd. Roedd agenda lawn o fentrau a chymhellion, yn ogystal â gweithdrefn weithredol a oedd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu i leihau trais. Roedd diogelu a gwaith i atal hunan-niweidio hefyd yn effeithiol, er bod y defnydd o wahanu wedi cynyddu ac nid oedd goruchwyliaeth yn ddigon da.

Roedd yr amodau byw ar yr unedau yn dda ac roedd cynlluniau gweithredol i ddiweddaru ac adnewyddu'r amgylchedd. Roedd systemau ar gyfer gwneud iawn hefyd yn dda, ac roedd y perthnasoedd gofalgar a chefnogol a ddatblygodd y staff gyda'r bechgyn yn golygu y gellid datrys y rhan fwyaf o broblemau neu faterion yn anffurfiol. Yn ein harolwg, dywedodd y rhan fwyaf o fechgyn eu bod yn cael cymorth i gynnal cysylltiadau teuluol, a bod y gwaith o'u hannog nhw drwy gydol eu dedfrydau a thuag at adsefydlu yr un mor effeithiol.

Roedd arweinyddiaeth dda, carfan ymroddedig o staff gofalgar a oedd yn barod i weithio gyda phlant fel unigolion, a gweithdrefn weithredol a oedd yn ceisio ennyn diddordeb a chymell bechgyn, yn diffinio llwyddiant y Parc. Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at nifer o flaenoriaethau a fydd, gobeithio, yn helpu'r sefydliad i wella'n barhaus, ond dylid llongyfarch arweinwyr a staff am yr hyn y maent wedi'i gyflawni.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Tachwedd 2023

# Yr hyn sydd angen ei wella yn STIEF y Parc

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd 11 o bryderon allweddol, a dylid trin chwech ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon blaenoriaethol yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i blant. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

## Pryderon blaenoriaethol

1. **Roedd rhai plant wedi cael eu gwahanu am ormod o amser ac roedd eu harferion yn agored i gyfyngiadau gormodol.** Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan Reol 49 y Sefydliad Troseddwyr Ifanc wedi cynyddu ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio.

2. **Nid oedd hyrwyddo cydraddoldeb wedi cael ei flaenoriaethu a chafodd ei danseilio gan ddiffyg staffio cyson i gydlynu a gyrru'r gwaith.** Roedd hyn yn llesteirio dealltwriaeth arweinwyr o ganfyddiadau plant yn y maes hwn.

3. **Roedd anghysondebau o ran lleoli staff addysg, a diffygion o ran ansawdd yr addysgu a'r asesu.** Nid oedd digon o oruchwyliaeth o ran datblygiad dysgwyr; roedd llawer wedi ymddieithrio ac wedi gwneud cynnydd araf tuag at achrediadau, ac roedd cyrhaeddiad mewn ychydig o bynciau yn isel.

4. **Roedd trefniadau partneriaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn araf i gefnogi'r broses o drosglwyddo darparwyr addysg yn llwyddiannus.** Dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd trefniadau partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth addysg neu i wella'r cwricwlwm.

5. **Nid oedd strategaeth ddarllen ar waith.** Nid oedd y llyfrgell yn gweithio gydag addysg i hyrwyddo llythrennedd ac ni allai plant a oedd eisiau darllen chwilio am lyfr o'u dewis a'i gael.

6. **Roedd rhai asesiadau risg ROTL ac adroddiadau rhannu gwybodaeth MAPPA o ansawdd gwael.**

## Pryderon allweddol

7. **Roedd y gwaith o oruchwylio gofal iechyd yn annigonol ac nid oedd yn darparu digon o graffu ar y gwasanaeth i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol i bob plentyn.**

8. **Nid oedd anghenion iechyd y plant i gyd wedi cael eu hasesu ac nid oedd ganddynt fynediad digonol at ystod briodol o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.**

9. **Roedd cofnodion clinigol y plant o ansawdd gwael ac nid oeddent yn rhoi darlun cywir na chynhwysfawr o'r asesiad, y gofal a'r driniaeth.**

10. **Nid oedd y cwricwlwm addysg yn ystyried y farchnad lafur nac anghenion dysgwyr yn ddigon da.** Nid oedd yn ffocysu'n ddigonol ar elfennau galwedigaethol, ac nid oedd gan yr adran addysg yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o ddatblygu llwybrau addysg i blant.

11. **Nid oedd hunanwerthuso dysgu a sgiliau, gan gynnwys y defnydd o ddata, yn ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.**

# Gwybodaeth am STIEF y Parc

**Tasg y sefydliad**
Dal plant rhwng 15 ac 17 oed sy'n cael eu dedfrydu a'u remandio. Oherwydd pwysau poblogaeth yn yr ystâd oedolion, roedd gan y Parc blant 18 oed hefyd ar hyn o bryd.

**Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler Geirfa) fel yr adroddwyd gan y sefydliad yn ystod yr arolygiad**
Plant yn y ddalfa adeg yr arolygiad: 28
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 46
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 46
Capasiti gweithredol: 46

**Poblogaeth y sefydliad**
- 50 o newydd-ddyfodiaid yn cyrraedd bob blwyddyn (tua phedwar y mis).
- Tri o blant sy'n wladolion tramor.
- Roedd traean o blant o gefndiroedd du ac ethnig lleiafrifol.
- 35% o blant ar remand.
- Tri phlentyn yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis.
- Dywedodd 75% o'r plant eu bod wedi bod yng ngofal eu hawdurdodau lleol ar ryw adeg cyn mynd i'r ddalfa.
- Roedd 35% o'r rheini yn y ddalfa bellach yn 18 oed, a bydd 50% yn dod yn oedolion tra byddant yn y ddalfa ar eu dedfryd gyfredol neu ar remand.
- Roedd 40% o blant wedi cael eu heithrio o addysg prif ffrwd cyn cael eu rhoi yn y ddalfa.

**Statws y sefydliad (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol**
Preifat: G4S

Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: G4S
Darparwr iechyd deintyddol: Time for Teeth
Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: Novus Gower
Contractwr hebrwng: GEOAmey

**Adran y carchar**
Y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa

**Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar**
Siân Hibbs

**Hanes cryno**
Agorodd yr uned blant yng Ngharchar Ei Fawrhydi (CEF) / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym mis Mawrth 2002 fel cyfleuster 28 cell ar gyfer plant ar remand rhwng 15 ac 18 oed. Ym mis Hydref 2004, ehangodd i gartrefu 36 o blant rhwng 15 ac 18 oed, ar remand ac wedi'u dedfrydu, gydag estyniad pellach ym mis Chwefror 2007 i 64 o blant. Cafodd hyn wedyn ei leihau ym mis Rhagfyr 2022 i ddal 46 o blant. I ddechrau, roedd yr uned yn gartref i blant o

Gymru yn unig ond, ers mis Mawrth 2013, mae dalgylch y llys wedi cynnwys de-orllewin Lloegr hefyd.

**Disgrifiad byr o’r unedau preswyl**
Mae’r uned blant yn CEF / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cynnwys dwy uned breswyl fechan ac uned gymorth unigol, sy’n darparu 46 gwely ar gyfer plant sy’n cael eu dedfrydu a’u remandio rhwng 15 ac 18 oed. Mae’r Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn gyfleuster ar wahân ym mhrif CEF y Parc, ac mae’r holl unedau a chyfleusterau wedi’u gwahanu ac i’w defnyddio gan blant yn unig.

E1 - yn dal 22 o blant
G1 - yn dal 24 o blant
Uned gymorth unigol – yn dal dau blentyn pan fyddant yn cael eu defnyddio

**Enw’r cyfarwyddwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**
Heather Whitehead, Cyfarwyddwr, Awst 2023
Sam Kitching, Pennaeth Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, Hydref 2022

**Newid o ran cyfarwyddwyr ers yr arolygiad diwethaf**
Janet Wallsgrove, Cyfarwyddwr tan fis Awst 2023
Jason Evans, Pennaeth Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc tan fis Hydref 2022

**Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**
Kelvin Hughes

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**
28 Mawrth – 8 Ebrill 2022

# Adran 1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i blant


1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer plant yn erbyn pedwar prawf sefydliad iach: diogelwch, gofal, gweithgarwch pwrpasol ac ailsefydlu (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y sefydliad (gweler Adran 2).

1.2 Yn yr arolygiad hwn o STIEF y Parc, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- yn dda ar gyfer diogelwch
- yn dda ar gyfer gofal
- ddim yn ddigon da ar gyfer gweithgarwch pwrpasol
- yn dda ar gyfer ailsefydlu

1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu STIEF y Parc oedd yn 2022. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i blant wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau sefydliad iach STIEF y Parc yn 2022 a 2023**




## Cynnydd o ran y prif bryderon ac argymhellion

1.4 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2022, gwnaethom 11 o argymhellion. Roedd pedwar ohonynt yn ymwneud â meysydd o bryder allweddol. Derbyniodd y carchar saith o’r argymhellion yn llawn, a phedwar yn rhannol (neu’n ddibynnol ar adnoddau).

1.5 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod dau o’n hargymhellion am feysydd o bryder allweddol wedi’u cyflawni, a bod dau wedi’u cyflawni’n rhannol. Nid oedd yr un o’r argymhellion a wnaed yn y maes gofal wedi’u cyflawni. Fodd bynnag, roedd y ddau argymhelliad ar ailsefydlu wedi’u

cyflawni. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Arferion cadarnhaol nodedig

1.6 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i blant; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

1.7 Daeth yr arolygwyr o hyd i naw enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn.

1.8 Mae arweinwyr a rheolwyr yn gosod disgwyliadau clir ynghylch plant yn rhyngweithio â'i gilydd. Cafodd yr holl newydd-ddyfodiaid eu dyrannu i gelloedd ar E1. Roedd yr uned hon yn gweithredu fel 'cymuned heddychlon' lle'r oedd disgwyl i bob plentyn gymysgu â'i gilydd. Roedd lleoli newydd-ddyfodiaid yno yn eu cyflwyno i'r disgwyliad eu bod yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'u cyfoedion o'r cychwyn cyntaf.

1.9 Roedd y cynllun cymhellion yn effeithiol ac wedi'i strwythuro'n dda, ac roedd yn canolbwyntio ar dair egwyddor sylfaenol a oedd yn hawdd i blant eu deall a'u dilyn, ac yn eu cymell i ymddwyn yn dda. (Gweler paragraffau 3.20 a 3.21)

1.10 Rhoddwyd sylw prydlon i unrhyw bryderon sy'n codi mewn cysylltiad â digwyddiadau defnyddio grym. Roedd hyn oherwydd goruchwyliaeth drylwyr gan y prif swyddog a oedd yn ymwneud â lleihau a rheoli ffrwyno corfforol (MMPR) a thîm penodedig o dri chynghorydd MMPR, gyda chraffu ychwanegol gan dîm amlddisgyblaethol a'r pwyllgor defnyddio grym. (Gweler paragraff 3.29)

1.11 Roedd arweinwyr a staff wedi datblygu diwylliant cryf, gofalgar a chefnogol a oedd yn galluogi'r nifer fwyaf o blant i gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol niferus a oedd ar gael, ac roedd y plant yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt ac yn ymddiddori ynddynt. Roedd trafodaethau rheolaidd ynghylch cynlluniau cymorth yn y ddalfa (CuSPs) yn caniatáu i blant ddatblygu perthnasoedd cadarn gyda'u gweithiwr CuSP. (Gweler paragraff 4.1-4.4)

1.12 Roedd ansawdd pob cwyn yn cael ei sicrhau ac roedd yn cynnwys clywed llais y plentyn, gan eu bod yn cael cyfle i ymateb i'r ffordd yr oeddent yn meddwl y gweithredwyd y broses, ac ansawdd yr ymateb. (Gweler paragraff 4.17)

1.13 Roedd gan y plant fynediad da iawn at weithgareddau cyfoethogi (a oedd ar wahân i'r ddarpariaeth addysg). Roedd y rhan fwyaf yn derbyn o leiaf naw awr yr wythnos, a llawer mwy yn gyffredinol – gwelsom enghreifftiau o blant yn cael 25 awr o'r gweithgaredd hwn yn rheolaidd mewn wythnos. Roedd y tîm cyfoethogi wedi meddwl am anghenion y

plant ac wedi darparu gweithgareddau a oedd yn bleserus, ond hefyd yn eu helpu i ddysgu. (Gweler paragraff 5.3-5.5)

1.14 Cafodd y plant gefnogaeth ragorol i'w helpu i gynnal a meithrin perthnasoedd â phobl sy'n bwysig iddynt. Roedd ymweliadau cymdeithasol a galwadau fideo diogel yn cael eu defnyddio'n helaeth, ac roedd y lolfa deulu'n darparu amgylchedd hamddenol ar gyfer ymweliadau gan frodyr a chwiorydd iau neu blant bach. (Gweler paragraff 6.1-6.6)

1.15 Roedd gweithwyr achos a staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r fframwaith ymgeisio cyfiawnder ieuenctid (YJAF, gweler Geirfa), a oedd yn golygu bod partneriaid cymunedol (timau troseddau ieuenctid) yn cael gwybodaeth dda am gynnydd plant yn y Parc. (Gweler paragraff 6.13)

1.16 Roedd cymorth gofal drwy'r broses gan y tîm anghenion, ymgysylltu a lles, a oedd yn cynnwys ymweliadau dilynol â chartrefi neu gyfarfodydd yn y gymuned gyda phlant ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, wedi helpu o ran gwirio eu lles ac ailsefydlu cysylltiadau ag asiantaethau cymunedol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gyda thystiolaeth o rai canlyniadau cadarnhaol. (Gweler paragraff 6.26)

# Adran 2 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i blant yn y ddalfa.** (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler Geirfa)

2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i blant yn y ddalfa. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth o ffynonellau, gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid, ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.

2.2 Ar ôl cyfnod hir o sefydlogrwydd, bu sawl newid arweinyddiaeth uwch ers yr arolygiad blaenorol, yn benodol y cyfarwyddwr, pennaeth yr uned blant a'r pennaeth addysg. Ar ben hynny, roedd y contract newydd ar gyfer STIEF y Parc o fis Rhagfyr 2022 yn cynnwys newidiadau i'r darparwyr gofal iechyd ac addysg.

2.3 Er y bydd trosglwyddo unrhyw wasanaeth a'i staff i gyflogwr newydd bob amser yn achosi rhywfaint o darfu, siomedig oedd gweld bod elfennau o'r tarfu hwn yn dal yn amlwg 10 mis ar ôl y newid. Roedd ansawdd yr addysg wedi dirywio'n sylweddol o wasanaeth a gafodd sgôr rhagorol gan Estyn ym mis Gorffennaf 2022 i un a farnwyd yn ddigonol yn yr arolygiad hwn. Roedd y cyfarwyddwr a'r pennaeth addysg yn ymwybodol o'r her hon ac, yn ddiweddar, roeddent wedi gwneud gwelliannau mawr eu hangen i drefniadau partneriaeth gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffygion, a oedd bellach yn cynnwys cwricwlwm cyfyngedig, diffyg athrawon arbenigol a mynediad gwael at adnoddau dysgu.

2.4 Fodd bynnag, roedd arweinwyr wedi llwyddo i gynnal diwylliant cefnogol iawn a pherthnasoedd da rhwng plant a staff a oedd yn diogelu canlyniadau cadarnhaol i blant i raddau helaeth. Fe wnaethom gwrdd â staff a oedd wedi ymrwymo i wella'r gefnogaeth i'r plant yn eu gofal ar unedau preswyl, ym maes gofal iechyd ac addysg.

2.5 Yn ein harolwg staff, dywedodd 63% o'r ymatebwyr fod arweinwyr bob amser yn hawdd mynd atynt, a dywedodd 72% eu bod bob amser yn gosod safonau ymddygiad uchel ar gyfer staff, tra dywedodd 60% fod ymddygiad gwael gan staff bob amser yn cael ei herio; dywedodd 49% fod arweinwyr bob amser yn dathlu gwaith da, a dywedodd 35% eu bod yn aml yn gwneud hynny. Roedd ein canfyddiadau'n cefnogi'r safbwyntiau hyn. Roedd arweinwyr unedau a rheolwyr canol yn arbennig o arloesol ac effeithiol, er enghraifft wrth ddatblygu'r rhaglen gyfoethogi ardderchog a roddwyd ar waith ers yr arolygiad blaenorol. Yr eithriad i'r oruchwyliaeth dda hon oedd bod rheoli gweithdrefnau gwahanu wedi dirywio.

2.6 Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn y Parc yn cwrdd â'u rheolwr yn rheolaidd i weld sut roedden nhw'n dod yn eu blaenau, gyda 72% yn

dweud eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn ganddynt; mae hyn yn sicr wedi cyfrannu at dîm sy'n perfformio'n dda gyda morâl da iawn.

2.7 Gweithiodd arweinwyr a staff yn llwyddiannus i oresgyn y rhwystrau i ymarfer effeithiol a welwn mewn safleoedd eraill. Yn benodol, roedd cyfarfodydd boreol dyddiol a'r defnydd eang o'r fframwaith ymgeisio cyfiawnder ieuenctid (YJAF, gweler Geirfa) yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc a chyda gweithwyr proffesiynol yn y gymuned. Ar ben hynny, roedd sesiynau cynlluniau cymorth yn y ddalfa (CuSP) wythnosol rhwng staff a phlant wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth a mynd i'r afael ag anghenion y plant yn y Parc.

# Adran 3 Diogelwch

**Mae plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y ddalfa

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant sy'n trosglwyddo i'r ddalfa, ac oddi yno, yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae plant sy'n cyrraedd y ddalfa yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae eu hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u diwallu, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau ymsefydlu'n gynhwysfawr.

3.1 Cyrhaeddodd y rhan fwyaf o blant y Parc yn ddigon cynnar i gwblhau'r gweithdrefnau derbyn a'r prosesau noson gyntaf angenrheidiol cyn iddynt gael eu rhoi o dan glo am y noson. Cawsant eu croesawu yn brydlon yn y brif ardal dderbyn gan aelod o staff o'r uned plant a'u tywys i'r uned, a oedd yn sicrhau nad oeddent yn cael cyswllt â charcharorion sy'n oedolion.

3.2 Cynhaliwyd cyfweliadau cychwynnol ac asesiadau gofal iechyd mewn ystafell breifat, dawel lle gallai plant rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cadw nhw, ac eraill, yn ddiogel heb unrhyw beth sy'n tynnu sylw neu risg o gael eu clywed. Defnyddiodd y staff y wybodaeth ar y fframwaith ymgeisio cyfiawnder ieuenctid (YJAF, gweler Geirfa) i baratoi ar gyfer plant yn cyrraedd, cyn cofnodi eu hasesiadau eu hunain arno er mwyn i eraill gael mynediad ato. Nodwyd risgiau ac anghenion y plant a rhoddwyd sylw iddynt yn ystod y cyfweliadau hyn, a rhannwyd gwybodaeth yn effeithiol gydag aelodau staff arall pan aeth y plant i'w hunedau preswyl.

3.3 Roedd chwilio'n gymesur a phrin oedd y noeth-chwilio (gweler paragraff 3.17). Cynigiwyd bwyd i'r plant a gwnaeth y staff ymdrech i wneud yn siŵr eu bod yn gallu ffonio'u teuluoedd neu'u gofalwyr i roi gwybod iddynt eu bod wedi cyrraedd y Parc.

3.4 Dyrannwyd y plant i gelloedd ar E1 ar ôl cyrraedd. Roedd E1 yn gweithredu fel 'cymuned heddychlon' (gweler paragraff 3.26) lle'r oedd disgwyl i bob plentyn gymysgu â'i gilydd. Roedd lleoli newydd-ddyfodiaid yno yn eu cyflwyno i'r disgwyliad eu bod yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'u cyfoedion o'r cychwyn cyntaf. Cymerwyd ymagwedd fwy gofalus os oedd y wybodaeth yn nodi bod risgiau yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn gyntaf.

3.5 Roedd y celloedd ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn lân ac yn cynnwys digon o offer, ac roedd y plant yn cael pethau ymolchi, dillad os oedd angen, deunyddiau ysgrifennu a rhai adnoddau i'w diddanu. Nid oedd mentor cymheiriaid uned ar gael ar hyn o bryd, ond fel arfer gallai plant gymysgu ag eraill yn fuan ar ôl cyrraedd.



**Cell wedi'i pharatoi ar gyfer newydd-ddyfodiad**

3.6 Yn ystod tri diwrnod cyntaf eu dedfrydau, roedd plant yn cael eu monitro bob 30 munud pan oeddent yn eu celloedd, neu'n amlach os oedd angen hynny o dan weithdrefnau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) (gweler paragraff 3.13). Roedd gan y staff wybodaeth dda am blant a oedd wedi cyrraedd yn fwy diweddar, ac roeddent yn ofalus i fonitro sut roeddent yn ymgartrefu a dechrau meithrin perthnasoedd â nhw.

3.7 Roedd aelod penodedig o'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod y plant yn cael eu hymsefydlu'n llawn i'r uned. Trefnwyd hyn yn dda ac roedd yn para tri diwrnod, ac ar ôl hynny dechreuodd y plant fynychu addysg. Roedd y sesiynau ymsefydlu yn sicrhau bod y plant yn rhan o'r drefn ddyddiol ac yn rhyngweithio â staff a, phan fo'n bosibl, gyda'u cyfoedion. Cofnodwyd eu hymgysylltiad â'r broses ymsefydlu yn eu cofnodion unigol ac, yn ein harolwg, dywedodd 94% o blant, yn fwy nag mewn sefydliadau troseddwyr ifanc tebyg, eu bod wedi cael gwybod popeth yr oedd angen iddynt ei wybod yn ystod eu dyddiau cyntaf.

3.8 Yn ddiweddar, cynhyrchwyd taith fideo o'r uned i blant ei gwylio yn ystod eu noson gyntaf, ac roedd yn enghraifft o arweinwyr yn ceisio gwella'r profiad cynnar yn barhaus.

## Diogelu plant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn hyrwyddo lles plant, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl, ac yn eu hamddiffyn rhag pob math o niwed ac esgeulustod.

3.9 Roedd y plant yn cael eu diogelu'n bennaf drwy berthnasoedd da â staff, a diwylliant cadarnhaol yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Roedd sesiynau briffio dyddiol yn y bore yn parhau i fod yn fforwm effeithiol i rannu gwybodaeth berthnasol am blant, a'u diogelu. Roedd staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu, a gwelsom enghreifftiau o staff unigol a oedd wedi atgyfeirio eu hunain at ddiben craffu ar ôl bod yn rhan o ddigwyddiad pan ddefnyddiwyd grym (gweler paragraff 3.31).

3.10 Roedd y cysylltiadau â'r awdurdod lleol wedi gwella. Erbyn hyn, roedd gan yr uned weithiwr cymdeithasol ar secondiad o'r awdurdod lleol, a roddodd farn annibynnol am bryderon ynghylch diogelu ac amddiffyn plant. Roedd cysylltiadau gyda swyddogion penodedig yr awdurdod lleol ar gyfer plant ac oedolion, a oedd yn datblygu'n dda. Roedd yr arweinwyr yn glir ynghylch y manteision a oedd yn deillio o hyn.

3.11 Roedd rheolaeth fewnol dros amddiffyn a diogelu plant yn dda. Roedd cadw cofnodion yn gliriach ac yn fwy tryloyw nag o'r blaen. Cyfeiriwyd honiadau o gam-drin i'r awdurdod lleol perthnasol yn brydlon (roedd y rhan fwyaf yn cael eu rhannu â'r awdurdod lleol lle'r oedd yr uned wedi'i lleoli ac awdurdod lleol cartref y plentyn, gydag un ohonynt yn gyfrifol am weithredu mewn ymateb i'r atgyfeiriad). Darparodd cyfarfod wythnosol - a oedd yn cynnwys cyfarwyddwr y carchar, rheolwyr yr uned a'r gweithiwr cymdeithasol - drosolwg o bob atgyfeiriad amddiffyn plant agored, gan benderfynu pa gamau oedd angen eu cymryd cyn gynted â phosibl.

## Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae plant sydd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae pob aelod staff yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, yn effro iddynt, yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gallu cael gafael ar offer a chefnogaeth briodol.

3.12 Cafodd y plant a oedd mewn perygl o hunan-niweidio gefnogaeth dda gan y staff. Ers yr arolygiad diwethaf, ni fu unrhyw farwolaethau, digwyddiadau fu bron â digwydd yr oedd angen ymchwilio iddynt, neu anafiadau hunan-niweidio oedd angen triniaeth ysbyty. Roedd y gyfradd hunan-niweidio wedi cynyddu ychydig ers yr arolygiad diwethaf ac roedd yn debyg i'r rhan fwyaf o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill a oedd yn dal plant. Roedd 23 o achosion o hunan-niweidio yn ystod y 12 mis blaenorol, a oedd yn cynnwys 13 o blant. Roedd gwaith monitro'r arweinwyr eu hunain wedi datblygu ers yr arolygiad blaenorol,

ac wedi nodi'r cynnydd. Disgrifiwyd rhwystredigaeth y plant yn dilyn bod yn rhan o ddigwyddiadau eraill fel un o'r rhesymau dros y cynnydd.

3.13 Agorwyd 55 o ddogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn ystod y 12 mis blaenorol, a oedd yn gynnydd o 19 o gymharu â'r arolygiad diwethaf. Nododd arweinwyr yr agorwyd llawer o'r rhain nid oherwydd digwyddiadau hunan-niweidio ond oherwydd bod nifer cynyddol o blant yn cyrraedd gyda hanes o hunan-niweidio blaenorol, eu bod yn y ddalfa am y tro cyntaf a bygythiadau i niweidio eu hunain. Ychydig iawn o ddogfennau ACCT oedd ar agor am gyfnodau estynedig, a chymerwyd gofal i sicrhau bod problemau yn cael eu datrys cyn iddynt gael eu cau, a bod camau dilynol ar ôl cau achosion.

3.14 Roedd adolygiadau amserol, gyda chydlynydd achos cyson yn gyfrifol am bob plentyn a oedd yn cael cymorth ACCT. Cafodd camau gweithredu'r map gofal eu cwblhau cyn cau'r ACCT. Nid oedd camerâu mewn celloedd teledu cylch cyfyng yn cael eu defnyddio mwyach i gynnal gwiriadau yn y nos. Fodd bynnag, roedd amseru rhai gwiriadau staff yn ystod y dydd a'r nos yn parhau i fod yn rhy hawdd eu rhagweld. Roedd sicrhau ansawdd lleol wedi nodi hyn ac roedd gan arweinwyr gynllun i'w wella, yn ogystal â rhai gwendidau o ran cofnodi rhyngweithio o ansawdd â phlant yn yr ACCT.

## Diogeledd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn cael eu cadw'n ddiogel drwy roi sylw i faterion corfforol a gweithdrefnol, gan gynnwys cudd-wybodaeth diogeledd effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a phlant.

3.15 Yn ystod y 12 mis diwethaf, cyflwynwyd 835 o adroddiadau cudd-wybodaeth, gan gynnwys 145 ar ymddygiad amhriodol a 93 ar ddarganfod arfau. Fodd bynnag, roedd yr ymateb i chwiliadau celloedd a oedd yn seiliedig ar gudd-wybodaeth yn wendid; dim ond dau o'r 12 chwiliad cell y gofynnwyd amdanynt gan yr adran diogelwch a oedd wedi digwydd, ac nid oedd yr un wedi datgelu unrhyw eitemau neu nwyddau gwaharddedig.

3.16 Er bod llif cyson o wybodaeth yn ymwneud â diogeledd, roedd y rhan fwyaf o'r data diogeledd o'r uned plant wedi'i integreiddio â'r data o'r safle i oedolion. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr a rheolwyr yn yr uned plant i nodi a mynd i'r afael â bygythiadau diogeledd yno'n effeithiol.

3.17 Nid oedd unrhyw blant wedi cael eu noeth-chwilio ers dechrau'r flwyddyn. Roedd arweinwyr wedi adolygu'r prosesau noeth-chwilio ac, erbyn hyn, roeddent yn wyliadwrus iawn i wneud yn siŵr mai dim ond mewn achosion o anghenraid critigol y digwyddodd hyn, a dim ond o dan awdurdod uwch reolwr.

3.18 Roedd asesiadau risg ar gyfer hebryngwyr allanol yn seiliedig ar ystyriaethau meddygol, a oedd yn dangos ymrwymiad i gynnal diogelwch a lles plant.


3.19 Roedd ychydig o bryderon am gamddefnyddio sylweddau ymysg plant, gyda chyfradd profion cyffuriau gorfodol (MDT) cadarnhaol o 0% yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

## Rheoli ymddygiad

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda, lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg a chyson.

3.20 Roedd y cynllun cymhellion wedi'i strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar gysylltiadau effeithiol rhwng staff a phlant. Yn ein harolwg, roedd 71% o blant yn teimlo bod y system wobrwyo yn deg, a dywedodd 88% fod staff fel arfer yn cydnabod eu hymddygiad cadarnhaol. Roedd y ganmoliaeth a'r her gyson hon gan aelodau staff yr oedd y plant yn ymddiried ynddynt yn allweddol o ran eu cymell i ymgysylltu â gweithgareddau ac ymddwyn yn dda.

3.21 Roedd arweinwyr wedi cydweithio'n agos â'r plant i greu strategaeth gwobrau a sancsiynau sy'n addas i blant ac yn ymatebol. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar dair egwyddor sylfaenol: cynnal celloedd glân a thaclus, mynychu addysg yn brydlon, a gwneud hynny'n gyson. Roedd yr egwyddorion craidd hynny'n hawdd i blant eu deall a'u dilyn, ac roedd modd cyrraedd lefel uchaf y cynllun gwobrwyo o fewn pythefnos. Roedd y rhan fwyaf o'r plant y buom yn siarad â nhw yn cael eu cymell gan yr amser ychwanegol y tu allan i'w celloedd a'r defnydd o gyfleusterau hamdden ychwanegol yn yr ystafelloedd 'aur' a gynhigiwyd i'r rhai ar lefelau uwch y cynllun.



**Ystafell aur ar gyfer E1**

3.22 Roedd arweinwyr wedi edrych ar nifer o fentrau i leihau trais ymhellach, gan gynnwys uwchgynhadledd lleihau trais lle'r oedd plant yn cael eu hannog i rannu eu safbwyntiau ar sut i gadw'n ddiogel. O ganlyniad, roedd strategaeth arfau addawol wedi cael ei rhoi ar waith naw mis yn flaenorol, er nad oedd ei heffaith wedi cael ei hasesu eto.

3.23 Cafwyd 467 o ddyfarniadau yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn debyg i'r arolygiad diwethaf; roedd 372 wedi arwain at ganlyniad euog, cafodd 52 eu gwrthod neu ni fwriwyd ymlaen â nhw, a gohiriwyd 43. Roedd y rhan fwyaf o ddyfarniadau'n ymwneud â throseddau ymosod, difrod i eiddo neu ymladd. Er bod dyfarniadau'n cael eu cynnal yn brydlon ar y cyfan, nid oedd rhai o'r digwyddiadau wedi'u hymchwilio'n ddigon trylwyr. Roedd uwch reolwr yr uned plant yn sicrhau ansawdd y cofnodion dyfarnu.

3.24 Roedd staff Barnardo's ar y safle yn llawn amser ac yn darparu eiriolaeth i blant yn ystod dyfarniadau pan oedd eu hangen arnynt. Roedd y plant roeddem ni wedi siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau roedden nhw'n eu cynnig, ac roedd digonedd o lenyddiaeth sy'n addas i blant i wella'r cymorth wyneb yn wyneb.

## Lleihau bwlio a thrais

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pawb yn teimlo'n ddiogel rhag cael eu bwlio a'u herlid. Mae staff, plant ac ymwelwyr yn gwybod am systemau gweithredol a theg i atal ac ymateb i fwlio.

3.25 Roedd cyfraddau trais yn gymharol isel ac wedi aros yn gyson â'r arolygiad blaenorol; roeddent yn sylweddol is na'r rhai mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc tebyg. Cofnodwyd 86 o ymosodiadau yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chwech ohonynt yn galw am fynd i'r ysbyty. Ymchwiliwyd i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n gyflym ac agorwyd cynllun cymorth, her ac ymyrraeth (CSIP, gweler Geirfa) os oedd angen. Fodd bynnag, ni ymchwiliwyd yn lleol i nifer fach o ymosodiadau difrifol yn ymwneud â staff a phlant oherwydd eu bod wedi cael eu hatgyfeirio at yr heddlu.

3.26 Yn gadarnhaol, roedd E1 wedi cael ei drawsnewid yn 'gymuned heddychlon' lle pwysleisiodd arweinwyr bwysigrwydd integreiddio plant yn llawn â'i gilydd. Llofnododd y plant gompactau i ymrwymo i gydfyw â'i gilydd heb droi at drais. Cafodd ethos yr uned ei gefnogi gan dîm datrys gwrthdaro integredig ac ystwyth a oedd yn defnyddio cyfuniad o ymyriadau datrys gwrthdaro ar unwaith ac ymyriadau datrys gwrthdaro tymor hwy, a oedd yn datrys problemau'n gyflym.

3.27 Cafwyd 75 o atgyfeiriadau datrys anghydfod yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd 57 ohonynt wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol. Roedd y cynllun hwn yn ganmoladwy, ac roedd tua 15 i 20 o blant yn gallu cymryd rhan yn y rhan fwyaf o weithgareddau gyda'i gilydd, gan ragori ar yr hyn rydym wedi'i weld yn ddiweddar mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc tebyg.

## Defnyddio grym

Canlyniadau disgwyliedig: Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y defnyddir grym ac, os caiff ei ddefnyddio, bydd yn cael ei wneud mewn modd cyfreithlon gan staff sydd wedi'u hyfforddi. Mae'r defnydd o rym yn cael ei leihau drwy strategaethau ataliol a dulliau amgen sy'n cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu cadarn.

3.28 Cofnodwyd 235 o ddigwyddiadau o ddefnyddio grym yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn ein harolwg, dywedodd 81% o blant eu bod wedi cael eu ffrwyno. Er bod cyfraddau defnyddio grym ychydig yn uwch nag yn yr arolygiad blaenorol, roeddent wedi bod yn gostwng dros y misoedd diwethaf.

3.29 Roedd goruchwylio'r defnydd o rym yn cael ei reoli'n effeithiol gan yr arweinydd lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR) a thîm ymroddedig o dri chynghorydd MMPR, gan arddangos lefel uchel o wyliadwriaeth. Roedd tîm amlddisgyblaethol, a oedd yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol, yn adolygu pob recordiad fideo o ddigwyddiad

defnydd grym o fewn 24 awr. Roedd y pwyllgor defnydd grym yn haen ychwanegol o graffu, gan adolygu pob digwyddiad yn wythnosol. Roedd yr oruchwyliaeth gadarn hon yn sicrhau bod unrhyw bryderon a oedd yn codi o'r digwyddiadau hyn yn cael sylw prydlon.

3.30 Mae'n werth nodi nad oedd unrhyw dechnegau i ysgogi poen wedi cael eu defnyddio gyda phlant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cafodd 10 rhybudd anaf difrifol (SIWs) eu hatgyfeirio at y swyddog dynodedig a'r panel SIWs cenedlaethol; ymchwiliwyd yn drylwyr i bob un ohonynt, gan arwain at ychydig o argymhellion i staff y carchar ddysgu oddi wrthynt. Roedd arweinwyr a rheolwyr yn cymryd eu cyfrifoldeb dros leihau'r defnydd o rym o ddifrif, gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus. Roedd y defnydd o gamerâu ar y corff wedi gwella, ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi troi eu camerâu ymlaen yn brydlon pan oedd digwyddiad.

3.31 Roedd cyfarfod y grŵp monitro ac adolygu misol, a oedd yn cael ei fynychu'n dda, yn adolygu data defnydd grym yn ddiwyd. Roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r plant a'r staff penodol dan sylw pan ddefnyddiwyd grym, a'r rhesymau sylfaenol dros ddefnyddio grym. Mewn achosion lle codwyd pryder, atgyfeiriodd y rheolwyr y digwyddiadau at yr awdurdod lleol at ddiben cynnal ymchwiliad.

3.32 Cafwyd ôl-drafodaethau prydlon yn dilyn digwyddiadau defnyddio grym. Yn ein harolwg, roedd 100% o'r plant a oedd wedi cael eu ffrwyno wedi cadarnhau bod aelod o staff wedi siarad â nhw amdano wedyn.

## Gwahanu / gwaredu o leoliad arferol

> Canlyniadau disgwyliedig: Dim ond gyda'r awdurdod priodol y caiff plant eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, a chaiff hynny ei wneud yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.

3.33 Roedd nifer y plant a oedd wedi'u gwahanu o dan reol 49 (gweler Geirfa) y Sefydliad Troseddwyr Ifanc wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf, ac roedd eu goruchwyliaeth wedi dirywio. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 44 o blant wedi cael eu gwahanu, o gymharu â phump yn y chwe mis cyn yr arolygiad diwethaf. Roedd eu profiad o wahanu'n amrywio'n sylweddol; er bod rhai plant a gafodd eu gwahanu yn cael trefn ddyddiol amrywiol, gan gynnwys addysg, gweithgareddau cyfoethogi a hyd at naw awr allan o'u celloedd, cafodd eraill drefn llawer mwy cyfyngedig o tua 90 munud y diwrnod allan o'u cell.

3.34 Ni ddechreuodd y gwaith o gynllunio ailintegreiddio ar adeg y gwahanu. Roedd adolygiadau gwahanu yn aml yn cael eu cadeirio gan wahanol reolwyr, a oedd yn creu anghysondebau ac weithiau yn peri oedi o ran cynnydd. O ganlyniad, roedd yr amser yr oedd plant yn cael eu gwahanu wedi cynyddu'n sylweddol i 24 diwrnod ar gyfartaledd, gyda'r gwahaniad hiraf yn para dros 170 diwrnod (ac yn parhau). Roedd gan y tîm diogelwch gofnodion o blant eraill a oedd wedi cael eu gwahanu am 99, 50 a 75 diwrnod, a oedd yn llawer rhy hir.

3.35 Roedd rhai dogfennau rheol 49 allweddol ar goll, yn anghyflawn neu’n hwyr. Dywedodd rhai o’r plant y buom yn siarad â nhw eu bod wedi dewis peidio â mynychu eu hadolygiadau, a oedd hefyd heb eu cofnodi ar y cyfan.

3.36 G1 oedd yr uned ar gyfer plant yr oedd angen eu gwahanu mewn grwpiau bach neu oddi wrth yr holl gyfoedion dan reol 49 (fel arfer ar ôl anghytuno neu ddigwyddiad o drais). Yn ystod ein harolygiad, roedd tri grŵp o blant a oedd yn cymysgu mewn grwpiau bach, a phedwar o blant na allent gymysgu ag unrhyw blant eraill ac a oedd wedi’u gwahanu o dan reol 49 yn cael eu dal yn G1. Roedd dau blentyn dan reol 49 yn byw yn yr uned cymorth dwys (ISU). Roedd gan y plant ar yr uned gofal dwys arferion dyddiol unigol. Gwelsom y staff yn darparu gofal nodedig i’r plant hyn a chlywsom ganmoliaeth uchel iddynt gan y plant.

3.37 Nid oedd y grŵp monitro ac adolygu misol (gweler paragraff 3.31) wedi nodi’r cynnydd amlwg yn y defnydd o wahanu yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc ers yr arolygiad diwethaf.

# Adran 4 Gofal

**Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas dynol.**

## Y berthynas rhwng y staff a'r plant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r plant yn cael eu trin â gofal gan yr holl staff, a disgwylir iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain, ac maent yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud hynny. Mae staff yn gosod ffiniau clir a theg. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac maent yn eu helpu i gyflawni eu potensial.

4.1 Roedd y perthnasoedd rhwng y staff a'r plant yn dda iawn. Yn ein harolwg, dywedodd 80% o'r plant eu bod yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt, dywedodd 87% bod staff yn eu trin â pharch, a dywedodd 93% fod aelod o staff y gallant droi ato os oedd ganddynt broblem. Dywedodd y plant y buom yn siarad â hwy fod y staff yn eu trin yn dda; teimlent fod gan y staff ddiddordeb ynddynt, eu bod yn poeni am yr hyn a ddigwyddodd iddynt, a'u bod eisiau eu helpu.

4.2 Gwelsom ddiwylliant gofalgar a chefnogol lle'r oedd staff yn barod i fynd allan o'u ffordd i helpu plant, siarad â hwy'n gwrtais a chanfod amser iddynt. Gwelsom y plant yn mynd ati i chwilio am staff i dreulio amser gyda nhw, ac roedd yn amlwg bod y staff yn neilltuo amser i ddod i adnabod y plant yn dda. Roedd y diwylliant hwn yn cefnogi canlyniadau da i blant mewn sawl rhan o'n profion carchar iach. Roedd yn galluogi'r nifer fwyaf o blant i gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol niferus a oedd ar gael, gan fod y perthnasoedd meithrinol hyn yn galluogi staff i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o broblemau a materion cymysgu yn effeithiol.

4.3 Roedd ffiniau clir ac roedd plant yn eu parchu'n gyffredinol. Pan fyddai plentyn yn rhegi mewn sgwrs o bryd i'w gilydd, roedd hyn fel arfer yn cael ei herio ac yn aml yn cael ei ddilyn gan ymddiheuriad, a oedd yn dangos parch at y naill a'r llall.

4.4 Roedd cynlluniau cymorth yn y ddalfa (CuSP) yn amlwg, a chafodd y plant sesiynau rheolaidd gyda gweithiwr CuSP cyson, a oedd yn swyddog a oedd yn gweithio yn yr uned plant. Parhaodd y sesiynau hyn am o leiaf 45 munud yr wythnos ac fe'u cofnodwyd yn fanwl ar gofnod electronig y plentyn. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd hyn, a dywedodd y staff eu bod wedi dysgu llawer am y plant a bod y cyfarfodydd wedi helpu i reoli materion y plant o ddydd i ddydd.

4.5 Ni nodwyd unrhyw blentyn fel gweithiwr cyfoedion, ond roedd lefel yr ymgysylltu â staff a pharodrwydd y plant i ofyn i staff am help yn negyddu'r rhan fwyaf o'r angen am y math hwn o gymorth.

## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r plant yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac maent yn ymwybodol o reolau ac arferion y sefydliad. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

### Amodau byw



**Ardal gymunedol E1**

4.6 Roedd yr ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Roedd gan bob plentyn gell iddyn nhw eu hunain. Roedd y celloedd yn rhydd o graffiti ac mewn cyflwr da, heblaw bod y ffenestri, a oedd weithiau wedi cael eu crafu, yn cynnwys sbwriel rhwng y ddau baen, ac nid oedd y plant yn gallu rheoleiddio'r tymheredd yn y celloedd.

4.7 Roedd gan bob cell deledu a dodrefn gosodedig, a thoiled wedi'i sgrinio hefyd. Nid oedd gan yr un o'r toiledau yn y celloedd y buom yn edrych arnynt sedd toiled, ac roedd angen glanhau'r rhan fwyaf ohonynt. Llwyddodd y staff i annog plant i gadw eu celloedd yn lân drwy sgyrsiau un-i-un a chefnogaeth i'r rhai oedd ei hangen, yn ogystal â chystadlaethau wythnosol.

4.8 Roedd mynediad da at gawodydd; yn ein harolwg, dywedodd 100% o blant eu bod yn gallu cael cawod bob dydd. Fodd bynnag, roedd y cawodydd wedi blino, gyda phaent yn plicio ac roedd angen eu gwella. Roedd y pryderon hyn i fod i gael sylw mewn rhaglen adnewyddu arfaethedig a oedd yn cynnwys cyflwyno cawodydd yn y celloedd ac adnewyddu ffenestri'r celloedd.

4.9 Roedd gan y plant hefyd fynediad da at gyfleusterau golchi dillad. Yn gyffredinol, roedd y staff nos yn golchi ac yn sychu eu dillad, ond gallai'r plant olchi eu dillad eu hunain os oedden nhw'n dewis gwneud hynny. Yn ein harolwg, dywedodd 94% o blant fod ganddynt fel arfer ddigon o ddillad glân addas ar gyfer yr wythnos.

4.10 Gallai'r plant fynd allan i wneud ymarfer corff ar wahanol adegau yn ystod y dydd, yn gyffredinol mewn egwylion rhwng dosbarthiadau addysg, ac yna am oddeutu 30 munud ar ddiwedd y dydd. Roedd gan yr iardiau ymarfer corff laswellt artiffisial a murluniau ar y waliau, yn ogystal â byrddau a seddi, ond roedden nhw'n ddiaddurn; roedd gan un gawell yn ei orchuddio, a oedd yn lleihau'r golau naturiol.

4.11 Roedd mynediad at eiddo yn bryder i blant. Roeddent yn aros yn rhy hir o lawer i dderbyn eitemau a anfonwyd i mewn gan deuluoedd ac unrhyw beth a oedd yn cael ei storio; roedd hyn yn achosi llawer o rwystredigaeth. Roedd arweinwyr yn ymateb i'r pryderon hyn, fodd bynnag, ac roedd y gwaith o reoli eiddo i fod i gael ei wneud yn fewnol o'r carchar i oedolion.

**Gwasanaethau preswyl**

4.12 Yn ein harolwg, dywedodd 94% o blant wrthym eu bod yn cael digon o fwyd adeg prydau bwyd, o'i gymharu â dim ond 37% mewn carchardai tebyg. Roedd y fwydlen yn cynnig pedwar opsiwn, gan gynnwys dewis da o lysiau a dewisiadau iach. Roedd dau opsiwn poeth bob dydd, ac roedd y plant yn hoffi'r rhain, ac roedd eitemau ychwanegol, fel grawnfwydydd a nwdls, ar gael ar gais. Roedd prydau bwyd yn ystod yr wythnos yn cael eu coginio yng nghegin y staff ac o ansawdd uchel, ond roedd y rhai ar benwythnosau yn dod o'r brif gegin ar gyfer y safle oedolion ac nid oeddent cystal. Y cogyddion o'r cyfleuster staff oedd yn penderfynu ar y fwydlen ar gyfer yr wythnos gyfan, a oedd yn golygu nad oedd dewisiadau'r plant yn ailadroddus a bod ganddynt amrywiaeth ehangach o fwyd iach.

4.13 Roedd rhai cyfleusterau hunan-goginio ar yr adeiniau, a oedd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan blant, a digwyddiadau fel 'brecwast platinwm', lle'r oedd y rhai ar lefel uchaf y cynllun gwobrwyo a sancsiynau yn coginio eu brecwast eu hunain ar benwythnosau gyda chyflenwadau o gegin y carchar. Gallent hefyd goginio ar gyfer staff a gwnaethant hynny ar y rhan fwyaf o benwythnosau, pan oedd staff yn eistedd ac yn bwyta brecwast gyda'r plant. Roedd hyn yn hynod o boblogaidd ac roedd y plant yn mwynhau'r profiad yn fawr. Roedd y plant hefyd yn gallu bwyta eu prydau gyda'i gilydd bob dydd, a oedd yn gadarnhaol.

4.14 Roedd y siop yn dda. Yn ein harolwg, dywedodd 94% o blant fod y siop yn gwerthu pethau yr oedd eu hangen arnynt, yn erbyn y cymharydd o 55%. Dywedodd y plant wrthym y gallent gael y rhan fwyaf o bethau yr oeddent eu heisiau, ac y byddai staff yn helpu pe bai angen rhywbeth nad oedd ar y rhestr.

**Ymgynghori, ceisiadau ac unioni**

4.15 Cafwyd cryn dipyn o ymgynghori ffurfiol gyda phlant. Cynhaliwyd fforwm misol gyda gwahanol blant yn bresennol bob tro, a oedd yn cynnwys pynciau fel bwyd, y siop a'r materion a oedd yn effeithio ar eu bywydau bob dydd. Roedd newidiadau mawr hefyd yn destun grwpiau ffurfiol; er enghraifft, trafodwyd y gwaith adnewyddu arfaethedig ar yr uned ac roedd y plant wedi cyfrannu at ddewis lliwiau a chynllun dodrefn y celloedd, a dywedasant wrthym eu bod yn hoffi hynny.

4.16 Fodd bynnag, nid ymgynghori ffurfiol oedd y brif ffordd y clywyd llais y plentyn yn y Parc; roedd y perthnasoedd da, y gwelededd a'r ymgysylltu gan y staff a'r sesiynau CuSP rheolaidd (gweler paragraff 4.4) yn golygu bod arweinwyr a staff yn gwybod am y materion a oedd yn peri rhwystredigaeth i blant ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

4.17 Cyflwynwyd 36 o gwynion yn ystod y chwe mis blaenorol. Cawsant i gyd eu hateb yn drylwyr ac yn gwrtais. Yn y detholiad a adolygwyd gennym, gwelsom ymatebion lle'r oedd yr ymchwilydd wedi mynd y tu hwnt i lefel yr ymholiad a welwn fel arfer i sicrhau bod y plentyn yn cael ateb addas. Roedd y broses sicrhau ansawdd hefyd yn dda iawn. Adolygwyd pob cwyn, a chafodd y plentyn gyfle i ymateb yn ysgrifenedig a graddio sut roeddent yn teimlo bod y gŵyn wedi cael ei thrin, a oedd yn arfer nodedig. Fodd bynnag, dim ond tua 60% o'r ymatebion a anfonwyd at blant o fewn targed saith diwrnod y Parc.

4.18 Gallai'r plant wneud ceisiadau drwy'r ciosg electronig neu ar bapur, ac roedd yr ymatebion yn gyflym ar y cyfan. Dywedodd y plant wrthym fod ceisiadau'n cael eu datrys yn gyflym, ac eithrio ar gyfer materion eiddo (gweler paragraff 4.11), ac, fel gyda chwynion, gwelsom fod y rhan fwyaf o anghenion y plant yn cael sylw drwy'r dydd gan staff a oedd yn gofalu ac yn ymateb yn effeithiol i'w ceisiadau llafar.

4.19 Roedd mynediad plant at gynrychiolaeth gyfreithiol a'u hawliau cyfreithiol yn dda: roedd ymweliadau cyfreithiol wyneb yn wyneb ar gael bob diwrnod o'r wythnos, roedd ystafell gyswllt fideo ar gael ar gyfer ymweliadau â'r llys ac ymweliadau fideo pan nad oedd cynrychiolwyr cyfreithiol y plant yn gallu bod yn bresennol yn bersonol. Roedd y tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWTs, gweler paragraff 4.27) yn delio ag unrhyw waith papur apêl ac roedd staff Barnardo's, a oedd yn darparu gwasanaeth eiriolaeth, ar gael i roi cyngor pan oedd angen.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r sefydliad yn dangos dull clir a chydlynol o ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo canlyniadau teg a meithrin cysylltiadau da, ac mae'n sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais annheg. Mae hyn yn seiliedig ar brosesau effeithiol i ganfod a datrys unrhyw anghydraddoldeb. Mae anghenion amrywiol pob plentyn yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

### Rheolaeth strategol

4.20 Tanseiliwyd ymrwymiad yr arweinwyr i gydraddoldeb ac amrywiaeth gan ddiffyg adnoddau neu staff a neilltuwyd i'r flaenoriaeth hon. Er bod rheolwr yn gyfrifol am gydraddoldeb ac amrywiaeth, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud ar sail ad hoc gan y rheini sydd â rolau eraill. Roedd hyn yn golygu bod y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gennym yn yr arolygiad blaenorol wedi bod yn araf. Nid oedd partneriaeth gyda mudiad cymunedol wedi cyflawni'r gwelliannau a'r adnoddau y gobeithiwyd amdanynt. Roedd diffyg staff ymroddedig yn rhwystr rhag cynnwys mwy o blant, cael gwell dealltwriaeth o'u canfyddiadau, a chodi proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth.

4.21 Roedd y defnydd o ddata i nodi canlyniadau anghymesur, yn enwedig mewn perthynas ag ethnigrwydd, wedi gwella ac fe'i trafodwyd yng nghyfarfod grŵp monitro ac adolygu misol yr uned (gweler paragraff 3.31). Roedd hyn wedi nodi rhai meysydd i ymchwilio iddynt ymhellach; er enghraifft, gorgynrychiolaeth plant gwyn yn y broses ACCT a gorgynrychiolaeth plant du sy'n destun cynlluniau cymorth, her ac ymyrraeth (CSIPs, gweler Geirfa a pharagraff 3.25). Roedd arweinwyr wedi cynnal fforymau gyda'r ddau grŵp i geisio deall y rhesymau dros y gwahaniaeth hwn.

4.22 Roedd rheolwr uned yn gyfrifol am waith yn y maes hwn, ac roedd strategaeth a chynllun gweithredu yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer yr uned a'r digwyddiadau i'w dathlu yn ystod y flwyddyn. Cafwyd tystiolaeth yr ymgynghorwyd â phlant mewn cyfarfodydd '*Beyond Differences*' misol a bod camau'n cael eu cymryd wedyn, ond prin oedd presenoldeb y plant a'r staff yn y cyfarfodydd hyn. Roedd rhywfaint o waith i hyrwyddo amrywiaeth mewn gweithgareddau cyfoethogi ac addysg ond ychydig o gydgysylltu â'r tîm preswyl i sicrhau bod plant yn ymwybodol o wahanol ddigwyddiadau gydol y flwyddyn ac yn cymryd rhan ynddynt.

4.23 Roedd gan blant fynediad parod at ffurflenni cofnodi digwyddiadau gwahaniaethu (DIRFs), ac roedd 21 wedi cael eu cyflwyno dros y 12 mis blaenorol. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr ymchwiliad yn anghyson ac nid oedd y broses sicrhau ansawdd mewnol yn gadarn. Ni chafwyd unrhyw adolygiad gan asiantaeth allanol i gefnogi gwelliant.

**Nodweddion gwarchodedig**

4.24 Roedd gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig hysbys pob plentyn (gweler Geirfa) yn cael ei chadw ar gronfa ddata 'cryfderau a diwylliant'. Un o gryfderau'r uned oedd y wybodaeth a oedd gan staff am y plant yr oeddent yn gyfrifol amdanynt, gan ganiatáu i anghenion unigol yn gyffredinol gael eu diwallu.

4.25 Roedd traean o blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Roedd rhai o'r farn nad oedd y grŵp staff gwyn yn bennaf yn deall eu canfyddiadau o ran hiliaeth. Roedd angen gwneud mwy i archwilio'r safbwyntiau hyn a rhannu'r data monitro a gynhyrchir bob mis. Roedd plant o leiafrifoedd ethnig yn gwerthfawrogi'r trefniadau siop newydd a oedd yn rhoi mynediad iddynt at gynhyrchion gofal gwallt a chroen yr oeddent wedi gofyn amdanynt; roedd yr eitemau hyn hefyd yn cael eu cynnwys mewn nwyddau ymolchi a roddwyd i newydd-ddyfodiaid.

4.26 Ychydig o blant a nodwyd yn ffurfiol fel rhai ag anabledd, er bod staff yn aml yn sôn bod gan blant anghenion niwroamrywiol. Defnyddiwyd cynlluniau byw â chymorth ar gyfer y rheini a oedd ag anghenion penodol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn a'r gefnogaeth yr oedd ei hangen ar bob plentyn.

4.27 Roedd gweithwyr achos y tîm anghenion, ymgysylltu a lles (NEWT) yn ymwybodol o blant a oedd yn wladolion tramor, ac roedd tri ohonynt yn bresennol yn ystod yr arolygiad. Roedd y swyddog gwladolion tramor o'r prif garchar yn darparu mewnbwn arbenigol ar eu cyfer. Hwyluswyd mynediad at gynghorwyr cyfreithiol mewnfudo os oedd angen drwy'r NEWT neu eiriolwyr Barnardo's. Roedd cyfieithu dros y ffôn ac wyneb yn wyneb wedi cael ei ddefnyddio pan oedd angen hynny ar blentyn neu ei rieni.

4.28 Roedd yn anghyffredin i'r uned dderbyn plant a oedd yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf; bu un yn y flwyddyn flaenorol. Roedd gwybodaeth a ffurflenni ar gael yn Gymraeg, ac roedd staff yr uned a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn hysbys ac, er enghraifft, byddai un yn cael ei neilltuo fel swyddog CuSP ar gyfer plentyn a oedd yn siarad Cymraeg.

4.29 Pan gynhaliwyd yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant a oedd yn ystyried eu hunain yn hoyw, yn lesbiaid neu'n ddeurywiol, na phlant traws. Cynigiwyd cefnogaeth unigol i'r plant hyn os oedd angen.

4.30 Dywedodd yr holl blant a nododd fod ganddynt grefydd bod eu credoau crefyddol yn cael eu parchu. Roedd ganddynt fynediad at y gaplaniaeth ar brif safle'r carchar a gallent fynychu sesiynau addoli grŵp yno, wedi'u gwahanu'n briodol oddi wrth yr oedolion a oedd yn bresennol. Roedd materion cymysgu rhwng plant yn golygu nad oedd rhai yn gallu bod yn bresennol bob wythnos. Cynigiwyd hyfforddiant crefyddol ac roedd plant yn cael eu cynnwys mewn gwyliau a dathliadau crefyddol. Cafodd bwyd a baratowyd ar gyfer gwyliau crefyddol, er enghraifft, ei gludo i blant gan eu caplan i wneud yn siŵr eu bod yn ei dderbyn. Treuliodd gwirfoddolwr o'r Message Trust, elusen Gristnogol, amser ar

E1 a G1 yn wythnosol ar gyfer astudiaethau Beibl a dosbarthiadau cerddoriaeth.

4.31 Ymwelodd caplaniaid â'r uned bob dydd i gyflawni eu dyletswyddau statudol (gan gynnwys ymweld â phlant sydd wedi'u gwahanu a chroesawu newydd-ddyfodiaid), ac ymgysylltu ag unrhyw blant a oedd eisiau siarad â nhw. Roedd cefnogaeth i blant a oedd yn dioddef o salwch neu brofedigaeth deuluol yn cael ei rheoli'n dda, gan ganolbwyntio ar alluogi plant i fynychu ymweliadau terfynol neu wasanaethau angladd ar gyfer aelodau agos o'r teulu. Ar gyfer y rheini nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn bersonol, defnyddiwyd ystafell breifat groesawgar i ffrydio gwasanaethau, gyda chaplan wrth law i ddarparu cefnogaeth.

## Gwasanaethau iechyd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn cael gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion o ran iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad iechyd a gofal cymdeithasol pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y gwasanaeth iechyd yr un fath â'r hyn y gallai plant ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

4.32 Roedd gwasanaethau gofal sylfaenol a fferylliaeth wedi cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ers mis Rhagfyr 2022. Darparwyd gofal deintyddol gan Time for Teeth. Darparwyd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed drwy Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS) gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf. Roedd yr asesiad o anghenion iechyd wedi cael ei gyhoeddi yn 2021 ac roedd angen ei ddiweddaru. Roedd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd, ond roedd angen diweddaru hwn hefyd.

4.33 Er gwaethaf sicrwydd yn ein harolygiad diwethaf, roedd byrddau partneriaeth a chyfarfodydd llywodraethu lleol yn dal i fod yn brin o lywodraethiant clir o ran y gwasanaeth plant, a oedd yn arwain at oruchwyliaeth a chraffu annigonol ar y gofal a ddarparwyd. Ar ben hynny, ychydig iawn o dystiolaeth oedd o archwiliadau mewnol neu wiriadau rheoli cyson gan y rheolwr iechyd dynodedig. Dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei gywiro, a chynhyrchwyd dogfen oruchwylio yn ystod ein hymweliad. Ymchwiliwyd i ddigwyddiadau a adroddwyd ac roedd tystiolaeth bod gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhannu, ond nid oeddem yn hyderus bod yr holl ddigwyddiadau wedi cael eu hadrodd.

4.34 Roedd y ddau aelod o staff gofal sylfaenol hirsefydlog wedi gadael ers ein harolygiad diwethaf ac roedd swyddi gwag ar gyfer nyrs iechyd corfforol a nyrs iechyd meddwl. Roedd y staffio'n brin o sefydlogrwydd

a chysondeb, ond roedd nyrs banc gofal sylfaenol brwdfrydig a oedd yn adnabyddus i'r plant.

4.35 Roedd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddiweddaru gyda hyfforddiant priodol a goruchwyliaeth glinigol wedi'u cofnodi.

4.36 Roedd yr ystafell driniaeth mewn cyflwr da ac roedd hefyd yn cael ei defnyddio fel yr ystafell gweinyddu meddyginiaeth. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir ac roedd lefelau'r stoc yn cael eu monitro.

4.37 Roedd safon y cofnodion ar SystmOne (y system cofnodion clinigol electronig) yn annigonol ac nid oeddent yn canolbwyntio ar anghenion penodol plant yn y carchar. Roedd y cynlluniau gofal yn ddigonol ond nid oedd digon o dystiolaeth bod y plant wedi cymryd rhan. Roedd rhai cofnodion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn dal i gael eu cadw ar wahân, gan greu risgiau a gorgyffwrdd posibl.

4.38 Cafodd diffibriliwr allanol awtomataidd ei leoli'n briodol a'i wirio'n rheolaidd. Roedd y bag a oedd yn cynnwys offer argyfwng yn cael ei wirio bob dydd. Gwelsom fod rhywfaint o offer ar goll a chafodd hyn ei gywiro'n brydlon pan wnaethom roi gwybod i'r nyrs banc. Galwyd ambiwlans yn awtomatig mewn argyfwng, ac roedd hynny'n ymarfer da.

4.39 Cafodd y broses cwynion iechyd ei hysbysebu'n dda. Dywedwyd wrthym na chafwyd unrhyw gwynion ysgrifenedig yn ystod y 12 mis diwethaf, a bod staff wedi rhoi sylw i unrhyw bryderon a godwyd gan blant ar y pryd.

4.40 Roedd staff yn hyderus i wneud atgyfeiriadau diogelu, roeddent yn bresennol yng nghyfarfod diogelu'r carchar ac roeddent wedi sefydlu cysylltiadau â thîm diogelu'r Bwrdd Iechyd i gael cyngor a chymorth.

**Hybu iechyd a lles**

4.41 Nid oedd strategaeth na chynllun gweithredu hybu iechyd lleol ar waith, a oedd yn fwlch. Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hybu iechyd ar draws yr uned, ond nid oedd yn cael ei arddangos yn dda, nid oedd ganddo thema gydlynol ac nid oedd yn cael ei gyflwyno mewn iaith sy'n addas i blant.

4.42 Cafodd newydd-ddyfodiaid eu sgrinio'n brydlon am hepatitis B a haint a drosglwyddir yn rhywiol, a gellid eu cyfeirio at y tîm iechyd rhywiol os oedd angen. Cafodd plant a oedd yn ysmygu eu hasesu ar gyrraedd a chawsant losin disodli nicotin yn y dderbynfa, ond nid oedd unrhyw gymorth seicolegol.

4.43 Cynigiwyd amrywiaeth o frechiadau i'r plant, gan gynnwys ar gyfer y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR). Roedd yr holl blant a oedd i fod i gael yr imiwneiddiadau hynny yn gyfredol.

4.44 Roedd cynllun rheoli achosion ar waith yn yr uned blant gyda manylion cyswllt ar gyfer adrodd.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

4.45 Roedd nyrs yn sgrinio pob newydd-ddyfodiad gan ddefnyddio'r adnodd asesu iechyd cynhwysfawr cenedlaethol (CHAT). Roedd y nyrs yn eu gweld mewn ystafell a oedd yn cael ei rhannu â staff y carchar, a oedd yn golygu nad oedd y sgrinio'n breifat ac felly nid oedd yn unol â'r safonau iechyd cenedlaethol ar gyfer cyfrinachedd. Nid oedd asesiadau CHAT dilynol bob amser yn cael eu cwblhau yn unol â'r safonau cenedlaethol gan eu bod weithiau'n hwyr neu wedi'u hepgor (gweler paragraffau 4.54 a 4.59).

4.46 Roedd y gwasanaeth gofal sylfaenol dan arweiniad nyrsys yn cynnig ystod o wasanaethau, gan gynnwys ar gyfer cyflyrau hirdymor. Roedd y tîm gofal iechyd o'r carchar oedolion yn darparu gwasanaeth nyrsio y tu allan i oriau. Ymwelodd dau feddyg teulu, un gwrywaidd ac un benywaidd, â'r uned yn rheolaidd i weld cleifion, a oedd yn golygu y gallai plant weld meddyg teulu o'u hoff ryw. Roedd yr ymweliadau'n lleihau'r angen i drosglwyddo plant drwy'r carchar i oedolion i'r brif uned gofal iechyd. Roedd y gwasanaeth Meddygon Teulu yn cael ei ddarparu chwe diwrnod yr wythnos ac roedd yn cynnwys darpariaeth y tu allan i oriau. Roedd apwyntiadau brys gyda Meddyg Teulu ar gael ar y diwrnod, ac roedd apwyntiadau arferol yn cael eu cynnal yn yr uned.

4.47 Cyfeiriwyd pob plentyn at y gwasanaeth optometreg a fynychwyd unwaith y mis, gydag uchafswm aros o bedair wythnos. Roedd llwyth achosion y ffisiotherapydd yn cynnwys un plentyn adeg ein harolwg, a chynhigiwyd apwyntiadau arferol yn brydlon.

4.48 Roedd apwyntiadau gofal eilaidd anfynych yn yr ysbyty lleol, ac roedd y plant yn cael mynediad da iddynt.

4.49 Adeg yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn yn cael gofal cymdeithasol. Ni allai'r staff gofio'r tro diwethaf y bu angen gwasanaethau o'r fath, ond roeddent yn deall sut i atgyfeirio achos petai angen gwneud hynny.

## Iechyd meddwl

4.50 Roedd y gwasanaeth iechyd meddwl yn cynnwys nyrs iechyd meddwl gofal sylfaenol amser llawn – swydd Bwrdd Iechyd a oedd heb ei llenwi ers sawl mis – a nyrs iechyd meddwl plant amser llawn profiadol a oedd yn rheoli'r cyflyrau iechyd meddwl mwy cymhleth a difrifol; roedd y swydd hon yn cael ei gwneud gan nyrs benodol oedd wedi'i secondio o FACTS.

4.51 Prin oedd y therapïau cysylltiedig i ddiwallu holl anghenion y plant, fel seicotherapi, therapi celf neu therapi iaith a lleferydd, a oedd yn gyfle a gollwyd i ymyrryd yn gynnar.

4.52 Nid oedd ymyriadau gofal sylfaenol a gynhaliwyd yn flaenorol gan y nyrs iechyd meddwl sylfaenol ar gael mwyach oherwydd diffygion staffio, ond roedd nyrs iechyd meddwl y plant wedi llenwi rhai o'r bylchau dros dro. Roedd gweithio ar y cyd â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant â diagnosis deuol o

anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn amlwg, ac roedd dyletswyddau'r nyrs plant yn cynnwys ymweld â phlant a oedd mewn perygl o hunan-niweidio a'r rhai a oedd wedi'u gwahanu.

4.53 Roedd gan y gwasanaeth fynediad at seiciatrydd plant a oedd yn darparu asesiadau ac adolygiadau o bell. Fodd bynnag, nid oedd y seiciatrydd yn ymgymryd â'r holl ddyletswyddau rhagnodi uniongyrchol, ond yn hytrach roedd yn gwneud argymhellion rhagnodi i'r meddygon teulu, nad oedd bob amser yn unol ag arferion da.

4.54 Cafodd anghenion iechyd meddwl uniongyrchol plant eu hasesu ar ôl iddynt gyrraedd, gydag asesiad CHAT pellach o fewn saith diwrnod; y nyrs plant oedd yn ymgymryd â'r rhain ar hyn o bryd oherwydd diffygion staffio, ond nid oedd sgrinio niwroamrywiaeth CHAT bob amser yn cael ei gwblhau ac weithiau'n cael ei fethu'n llwyr.

4.55 Ysgrifennwyd cynlluniau gofal ac asesu risg ar gyfer y rheini ar y llwyth achosion gofal eilaidd a'u storio ar system cofnodion ar wahân. Ni chafodd y rhain eu llwytho i SystmOne, a oedd yn risg i barhad gofal a chyfathrebu da rhwng timau.

4.56 Roedd asesiadau, diagnosteg a phresgripsiynau niwrowahanol ar gael i blant, ond gallent gymryd peth amser i'w cwblhau. Nid oedd unrhyw blant ar gyffuriau gwrthseicotig, ac roedd y rhai yr oedd angen eu monitro ar gyfer meddyginiaethau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn cael eu monitro'n gorfforol.

4.57 Ni chawsom unrhyw ddata ar drosglwyddo plant i welyau iechyd meddwl diogel a chawsom wybod na fu unrhyw achosion yn ystod y tri mis blaenorol. Roedd cynlluniau rhyddhau ar gyfer plant ag anghenion iechyd meddwl yn anfynych ac yn cael eu rheoli drwy'r tîm troseddau ieuenctid.

## Camddefnyddio sylweddau

4.58 Roedd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn cyfnod o bontio ar ôl trosglwyddo'n ddiweddar i Dyfodol, a oedd yn darparu'r ymyriadau seicogymdeithasol. Darparodd y gwasanaeth gofal sylfaenol bresgripsiynau clinigol yn ôl yr angen. Roedd strategaeth a chynllun gweithredu cyffuriau ac alcohol ar waith, wedi'u cefnogi gan gyfarfodydd lleol rheolaidd, ac roedd amlinelliad o'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gael.

4.59 Aseswyd pob plentyn ar gyfer symptomau diddyfnu yn ystod eu hasesiadau cychwynnol a chwblhawyd CHATs, ond nid bob amser o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Defnyddiodd nyrsys y graddfeydd diddyfnu i asesu plant sy'n cyrraedd o'r llys, ond ni chawsant eu hyfforddi'n benodol i asesu anghenion plant o ran camddefnyddio sylweddau. Mae sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i unrhyw blentyn orfod cael therapi eilyddio opiadau ar gyfer diddyfnu acíwt, ond gallai meddygon teulu ragnodi hyn yn ôl yr angen.

4.60 Gwelodd gweithiwr cyffuriau profiadol ac ymroddedig yr holl newydd-ddyfodiaid, gan ddarparu cyngor unigol ar leihau niwed iddynt. Roedd llwyth achosion y gweithiwr cyffuriau yn cynnwys 60% o'r plant. Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn cynnwys asesiadau cynhwysfawr, cynlluniau gofal a thystiolaeth bod ymyriadau wedi'u cynllunio wedi cael eu cynnal. Roedd cynlluniau gofal a chofnodion achos yn cael eu cadw ar gofnodion TG G4S ac nid yn y cofnodion clinigol.

4.61 Roedd yr ymyriadau'n canolbwyntio ar y plentyn ac roedd ystod eang ar gael. Er nad oedd rhestrau aros yn cael eu defnyddio ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o adrodd i strwythurau llywodraethu, nid oedd yn ymddangos bod hyn yn effeithio ar ofal personol. Nid oedd unrhyw ystafelloedd penodol i staff weld y plant, oedd yn effeithio ar effeithiolrwydd gan nad oedd y mannau a ddefnyddiwyd yn lle hynny yn briodol ar gyfer trafodaethau ystyrlon diogel. Ni chafwyd unrhyw adborth gan y plant i lywio datblygiad y gwasanaeth.

4.62 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o gydweithio pwrpasol gyda'r gwasanaeth iechyd meddwl ond dim trafodaeth ffurfiol reolaidd gyda nhw. Roedd y cyfathrebu rhwng y ddau wasanaeth yn cael ei lesteirio gan y ffaith eu bod yn storio cynlluniau gofal unigol ar systemau TG ar wahân.

4.63 Roedd y cynllunio cyn-rhyddhau yn dda, gan ganolbwyntio ar atal atgwympo a lleihau niwed. Cefnogwyd atgyfeirio i wasanaethau cymunedol gan y gweithiwr tîm troseddau ieuenctid a'r gweithiwr teulu.

**Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

4.64 Darparwyd meddyginiaethau gan fferyllfa yn y carchar i oedolion. Roedd y gwasanaeth i blant yn cael ei reoli gan brif fferyllydd.

4.65 Cafodd y meddyginiaethau a oedd yn cyrraedd gyda phlant eu trosglwyddo i'r tîm fferyllfa, a gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol gan feddyg teulu'r plentyn os oedd angen. Yna, roedd y rhain yn cael eu rhagnodi a'u hailgyhoeddi. Mewn un achos, bu oedi o wythnos cyn rhoi presgripsiwn tra cyrchwyd gwybodaeth, ond nid oedd y plentyn wedi cael gwybod am hyn, a oedd yn wael.

4.66 Adeg yr arolygiad, roedd tri phlentyn yn cael meddyginiaeth. Roedd y plant yn cael eu datgloi mewn pryd i gael meddyginiaeth gan y nyrs cyn mynd i gael addysg, ac roedd y dosau dilynol yn cael eu rhoi am 11.45am a 5pm. Cynhaliwyd y gwaith o roi meddyginiaethau trwy hatsh a oedd yn agor ar y prif goridor ac nid oedd yn gyfrinachol. Roedd y plant yn cael eu goruchwylio'n dda pan oeddent yn mynd i'r hatsh i gael meddyginiaeth.

4.67 Roedd asesiadau risg ar gyfer plant a oedd yn derbyn meddyginiaethau yn cael eu cynnal ar sail anghenion, ac yn cael eu diweddaru neu eu hadolygu gyda phob presgripsiwn. Nid oedd y feddyginiaeth ym meddiant y plant adeg yr arolygiad. Roedd y gwaith o storio meddyginiaethau'n cael ei reoli'n dda a rhoddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn o flychau penodol.

4.68 Roedd hi’n bosib cael meddyginiaethau ar bresgripsiwn y tu allan i oriau drwy’r fferyllfa ar y safle, yn ôl yr angen. Fel yn yr arolygiad diwethaf, roedd mynediad at gymorth lleddfu poen ar benwythnosau a dros nos weithiau’n cael ei oedi ac roedd plant wedi codi hyn gyda staff nyrsio. Cafodd oediadau eu hadolygu drwy adrodd am ddigwyddiadau a mynd i’r afael ag unrhyw bryderon.

4.69 Nid oedd y cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau a’r agenda yn nodi anghenion plant yn benodol, a oedd yn fwlch. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys fformiwlari a rhagnodi, tueddiadau o ran adrodd am ddigwyddiadau a chanlyniad archwiliadau.

**Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

4.70 Cafodd pob plentyn ei gyfeirio at y deintydd ar ôl cyrraedd, ac roedd hyn yn arfer da. Roedd y gwasanaeth deintyddol wedi’i leoli yn y carchar i oedolion ac roedd yn darparu gwasanaeth dyddiol, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd slotiau wedi’u neilltuo ar gyfer y plant a dim rhestr aros ar gyfer apwyntiadau arferol. Roedd apwyntiadau penodol wedi’u neilltuo ar gyfer y plant a oedd angen triniaeth ac roedd yr amseroedd aros yn fyr.

4.71 Darparwyd cyngor hylendid deintyddol a hybwyd iechyd y geg ar bob cyfle posib. Darparwyd analgesia dros y cownter i blant a gafodd boen deintyddol ac fe’u gwelwyd mewn apwyntiad brys i leihau’r oedi.

4.72 Cyfeiriwyd plant a oedd wedi dechrau triniaeth orthodontig yn y gymuned at yr orthodeintydd i sicrhau parhad gofal, a oedd yn dda.

4.73 Dilynwyd mesurau atal a rheoli heintiau, ac roedd archwiliadau rheolaidd i fonitro safonau. Roedd gan y feddygfa ystafell ddihalogi ar wahân gyda mannau glân a budr a oedd wedi’u labelu’n glir.

# Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

## Amser allan o’r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn treulio’r rhan fwyaf o’u hamser allan o’u celloedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol, saith diwrnod yr wythnos.

5.1 Roedd yr amser yr oedd plant yn ei dreulio allan o’u celloedd drwy’r dydd ac ar benwythnosau yn dda, ac yn fwy na’r disgwyl, sef 10 awr y dydd. Roedd y plant ar y lefelau uchaf o’r cynllun gwobrau a sancsiynau yn treulio oddeutu 11 awr a 15 munud bob diwrnod o’r wythnos, a 10 awr a 30 munud ar benwythnosau, ar gyfartaledd, allan o’u celloedd. Roedd y plant ar y lefel isaf yn treulio mwy na naw awr y diwrnod, ar gyfartaledd, allan o’u celloedd.



**Iardiau ymarfer**

5.2 Roedd amser allan o’r gell yn cynnwys pum awr o weithgarwch pwrpasol mewn addysg bob diwrnod o’r wythnos, gan gynnwys dydd Gwener, nad ydym bob amser yn ei weld mewn carchardai plant eraill. Yn ystod ein gwiriadau o’r gofrestr, canfuom un neu ddau o blant wedi’u cloi yn eu celloedd yn ystod y diwrnod craidd; roedd arweinwyr yn ymwybodol o’r rhesymau dros yr absenoldebau hyn ac roeddent wedi’u cymeradwyo.

5.3 Yn ein harolwg, dywedodd llawer o blant mai’r rhaglen gyfoethogi oedd y peth gorau am y Parc. Gwelsom fod mynediad at weithgarwch cyfoethogi (ar wahân i addysg) yn dda iawn; roedd y rhan fwyaf o blant yn cael o leiaf naw awr yr wythnos, ac yn gyffredinol llawer mwy – gwelsom enghreifftiau o blant yn cael 25 awr o’r gweithgareddau hyn yn rheolaidd mewn wythnos. Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau

ar gael, ac roedd gan y plant ddewis o'r hyn y gallent ei wneud. Roedd y tîm cyfoethogi wedi meddwl am anghenion plant ac wedi ceisio darparu gweithgareddau a oedd yn bleserus ond a oedd hefyd yn eu helpu i ddysgu. Roedd y rhestr hir o weithgareddau'n cynnwys clwb ieuenctid, gyda digwyddiadau fel gweithdai hunan-barch, clwb ffilmiau, gemau tîm a sesiynau sgiliau bywyd, a oedd yn rhoi sylw i bynciau fel yr amgylchedd, cyffuriau ac alcohol, ac iechyd rhywiol.

5.4 Roedd y tîm cyfoethogi, o dan arweiniad rheolwr ymroddedig a brwdfrydig, hefyd yn darparu gweithgarwch y tu allan i oriau gwaith arferol y carchar, er enghraifft, bŵt-camp ffitrwydd am 7am a gweithgarwch yn yr awyr agored drwy'r awr ginio. Roedd ffocws cryf hefyd ar gynllun Gwobr Dug Caeredin, lle gallai plant ennill gwobr efydd.

5.5 Fe wnaeth gwaith y tîm cyfoethogi gyda rhai plant a oedd ag anghenion niwroamrywiol cymhleth argraff dda arnom. Mewn un achos, roedd hyn wedi arwain at blentyn yn dysgu darllen, ac roedd yn falch iawn o ddangos ei sgil newydd i'r tîm, gan ddarllen i nifer ohonynt.


5.6 Agorwyd y llyfrgell ar un diwrnod yr wythnos gan staff o'r brif lyfrgell; nid oedd digon o staff yno ac felly roedd y gwasanaeth wedi'i gyfyngu i wasanaeth archebu a galw heibio. Gallai'r plant ofyn am lyfr ond, gan nad oedd catalog, roedd yn rhaid i'r llyfrgellydd ddod o hyd i deitl addas, nad oedd bob amser yn ddelfrydol. Gwnaethant ollwng detholiad o lyfrau yn y llyfrgell i'r plant edrych arnynt a'u cymryd, ond dyna oedd hyd a lled y ddarpariaeth.

5.7 Nid oedd y llyfrgell yn hyrwyddo llythrennedd mewn unrhyw ffordd, ac nid oedd unrhyw gysylltiadau â'r darparwr addysg i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar lyfrau ar bynciau sy'n rhan o'r cwricwlwm presennol.



**Y llyfrgell**

5.8 Defnyddiwyd y gampfa fel rhan o'r cwricwlwm addysg a chan y tîm cyfoethogi. Y tu hwnt i addysg, gallai plant ddisgwyl treulio o leiaf pedair awr yn y gampfa bob wythnos, ond roedd y rhan fwyaf yn treulio mwy o amser na hynny yn y gampfa. Yn ein harolwg, dywedodd 75% o blant, yn erbyn y cymharydd o 40%, eu bod yn mynd i'r gampfa neu'n cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos.



**Y gampfa**

5.9 Roedd maes chwaraeon glaswellt artiffisial a champfa fach, a oedd bron iawn yn cael ei defnyddio'n barhaus gan wahanol grwpiau o blant. Roedd yr offer yn dechrau blino, ac roedd angen newid neu adnewyddu rhai ohonynt.

5.10 Roedd nifer o gydweithrediadau gydag asiantaethau allanol, fel Dallaglio RugbyWorks, Tennis Cymru, Levelling the Playing Field (sefydliad nid-er-elw i helpu i gynyddu nifer y plant o gymunedau lleiafrifol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon) a Street Games (elusen sy'n ceisio newid agweddau drwy chwaraeon). Roedd y plant y buom ni'n siarad â nhw yn frwdfrydig iawn am y cydweithrediadau hyn, yn enwedig gyda RugbyWorks.

5.11 Roedd tîm y gampfa yn darparu rhai cymwysterau chwaraeon ac yn gobeithio ehangu hyn i raglenni a chymwysterau mwy manwl.

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Estyn, sef swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n arolygu'r ddarpariaeth addysg a safonau addysg, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc, gan weithio o dan gyfarwyddyd cyffredinol Arolygiaeth Carchardai EF. Mae Estyn yn gorff annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond caiff ei ariannu ganddo. Pwrpas Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Canlyniadau disgwyliedig: Disgwylir i bob plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, sgiliau neu waith sy'n hybu datblygiad personol a chyflogadwyedd. Mae digon o addysg, sgiliau a mannau gwaith addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

5.12 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith:

- Safonau: digonol
- Lles ac agweddau at ddysgu: digonol
- Profiadau dysgu ac addysgu: digonol
- Gofal, cefnogaeth ac arweiniad: da
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: digonol

## Safonau

5.13 Cafodd llawer o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, achrediadau a oedd yn cyfateb â'u mannau cychwyn. Ychydig iawn o ddysgwyr a ddatblygodd sgiliau uwch, fel sgiliau ysgrifennu disgrifiadol cryf, neu achrediadau lefel 2 neu lefelau AS.

5.14 Mewn sesiynau sgiliau, gwnaeth tua hanner y dysgwyr gynnydd addas o ran datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Datblygodd rhai darllenwyr newydd eu sgiliau darllen yn briodol, er enghraifft gyda chefnogaeth rhaglen llythrennedd Ymddiriedolaeth Shannon. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd cyflymder cynnydd dysgwyr tuag at achrediadau ystyrlon mewn llythrennedd a rhifedd yn rhy araf ac roedd y gyfradd cyrhaeddiad yn isel.

5.15 Mewn pynciau ymarferol neu drwy weithgareddau cyfoethogi, datblygodd llawer o ddysgwyr sgiliau gwerthfawr a gwneud cynhyrchion o ansawdd da, megis ym maes coginio neu waith coed. Roeddent yn gweithio'n dda yn annibynnol neu gyda chyfoedion mewn ychydig o feysydd pwnc i ymarfer a mireinio eu sgiliau mewn cyd-destunau cyfarwydd. Er enghraifft, ym maes technoleg cerdd, roedd llawer o ddysgwyr yn dewis ac yn defnyddio'r meddalwedd mwyaf priodol ar gyfer eu cyfansoddiadau heb gymorth. Mewn sesiynau iechyd a lles, buont yn gweithio'n ddiogel ac yn annibynnol tuag at eu nodau ffitrwydd. Mewn ychydig o sesiynau, fel gwersi dinasyddiaeth, datblygodd dysgwyr eu sgiliau meddwl yn dda wrth iddynt archwilio cysyniadau gwrthdaro a chymuned.

5.16 Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd gormod o amrywiaeth yn y cynnydd a wnaeth lleiafrif o ddysgwyr tuag at nodau dysgu tymor byr neu dymor hir. Roedd hyn oherwydd ffactorau amrywiol, fel agweddau dysgwyr at ddysgu, diffygion o ran ansawdd a chysondeb yr addysgu, neu wendidau o ran pa mor ystyrlon yr oedd model y cwricwlwm a llwybrau achredu yn cefnogi eu hanghenion a'u diddordebau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth tymor hir.

## Lles ac agweddau at ddysgu



**Addysg**

5.17 Roedd y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu dosbarthiadau a'u hamgylchedd dysgu. Roedd eu cyfraddau presenoldeb yn uchel.

5.18 Roedd rhywfaint o darfu wedi bod ar gysondeb yr addysgu'n ddiweddar. Nid oedd rhai pynciau wedi cael tiwtor rheolaidd, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Lle'r oedd gan ddysgwyr athrawon cyson, roedd y rhan fwyaf wedi datblygu perthynas waith parchus a chynhyrchiol gyda nhw ac yn ymddwyn yn dda. Fodd bynnag, lle yr amharwyd ar addysgu, er enghraifft, oherwydd y defnydd o athrawon cyflenwi dros dro neu oherwydd salwch staff, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr wedi ymddieithrio ac nid oeddent eisiau dysgu. Cafodd hyn effaith negyddol sylweddol ar gyfradd eu cynnydd a'u canlyniadau mewn rhai pynciau.

5.19 Dangosodd ychydig iawn o ddysgwyr ddiffyg diddordeb cyffredinol mewn dysgu. Mewn rhai achosion, roeddent yn amharu ar ddysgu pobl eraill ac yn lleihau cynnydd eu cyfoedion.

5.20 Roedd llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda, yn mwynhau dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith, yn enwedig mewn pynciau ymarferol, fel gwaith coed, iechyd a lles, celf a cherddoriaeth. Er enghraifft, roedd y dysgwyr yn mwynhau cydosod a phaentio gwrthrychau mewn gwersi gwaith coed i'w rhoi fel anrhegion i'w teuluoedd, ysgrifennu straeon comig, neu ddefnyddio technoleg cerddoriaeth i recordio eu cyfansoddiadau eu hunain. Mewn dosbarthiadau dinasyddiaeth, bu llawer o ddysgwyr yn trafod digwyddiadau'r byd ar hyn o bryd ac yn datblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o safbwyntiau.

## Profiadau dysgu ac addysgu

5.21 Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol, ac roedd yn wan mewn lleiafrif o sesiynau. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd bod tiwtoriaid yn gorfod rhoi sylw i feysydd pwnc neu grwpiau yr oeddent yn anghyfarwydd â nhw neu anawsterau wrth adalw deunyddiau addysgu o ffynonellau digidol. Fodd bynnag, roedd gwendidau hefyd yn eu hymarfer.

5.22 Yn gyffredinol, roedd tiwtoriaid wedi gweithio'n gydwybodol i greu amgylcheddau dysgu cadarnhaol gyda pherthnasoedd yn seiliedig ar barch. Mewn llawer o sesiynau, maent yn gosod disgwyliadau a ffiniau clir.

5.23 Lle'r oedd yr addysgu'n effeithiol, roedd gan lawer o diwtoriaid ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu'r plant. Roeddent yn defnyddio eu dealltwriaeth i baratoi sesiynau wedi'u cynllunio'n dda gydag amcanion dysgu clir, a rannwyd â'r dysgwyr. Roedd tiwtoriaid yn ystyried cryfderau dysgwyr a'r meysydd i'w datblygu, gan eu galluogi i weithio ar y cyd neu'n annibynnol, yn unol â'r hyn oedd yn gweddu orau i'r sefyllfa. Roeddent yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a oedd yn helpu i gynnal cyflymder pwrpasol. Roedd hyn yn caniatáu i bron pob dysgwr yn y grŵp ymgysylltu â'r pynciau a'r tasgau. Roedden nhw'n defnyddio amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau addas a oedd yn adeiladu ar ei gilydd i helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau a gwneud cynnydd. Mewn rhai achosion, roedd tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall a gwerthuso materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a herio safbwyntiau ystrydebol yn effeithiol. Roeddent yn defnyddio technegau holi medrus i helpu dysgwyr i ymchwilio i elfennau allweddol o'r pwnc a mynegi eu barn yn barchus.

5.24 Mewn achosion lle nad oedd addysgu mor effeithiol, nid oedd gan diwtoriaid ddealltwriaeth glir o anghenion dysgwyr. O ganlyniad, nid oedd y sesiynau hyn yn cael eu cynllunio'n effeithiol, ac nid oedd ganddynt unrhyw her, cyflymder na diddordeb. Arweiniodd hyn at ddysgwyr yn ymddieithrio ac yn gwneud cynnydd araf.

5.25 Lle bo'n briodol, defnyddiodd y tiwtoriaid asesiadau llinell sylfaen i ddeall mannau cychwyn y dysgwyr. Mewn rhai achosion, roeddent yn darparu adborth llafar penodol yn ystod sesiynau, gan annog a herio dysgwyr. Mewn ychydig o bynciau, roeddent yn darparu adborth ysgrifenedig a oedd yn rhoi sylwadau priodol ar gyflawniad a chamau yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd yr adborth yn egluro'n ddigon clir i ddysgwyr sut i wella eu gwaith a gwneud cynnydd cyson.

5.26 Roedd gan bron pob dysgwr, gan gynnwys y rheini a oedd wedi'u gwahanu, fynediad at 25 awr o gwricwlwm yr wythnos a chymwysterau cysylltiedig priodol. Roedd y cwricwlwm yn cynnig sgiliau hanfodol, dinasyddiaeth a phynciau ymarferol, fel cerddoriaeth, celf, iechyd a lles, a gwaith coed. Fodd bynnag, nid oedd model y cwricwlwm na'r cymwysterau a gynhigiwyd yn ddigon cydlynol. Er enghraifft, nid oedd ffocws galwedigaethol digonol i ddiwallu anghenion hyfforddiant a

chyflogadwyedd y dysgwyr yn y dyfodol. Mewn sawl maes, roedd tiwtoriaid yn dilyn manylebau a deunyddiau'r cymwysterau yn briodol. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn rhoi'r cwricwlwm mewn cyd-destun digon da i alluogi dysgwyr i gymhwyso'r sgiliau hyn, er enghraifft, i'w hastudiaethau ymarferol neu i fywyd bob dydd. Roedd y cyfyngiad ar ddefnyddio offer mewn pynciau ymarferol yn rhwystro dysgwyr rhag datblygu sgiliau llaw penodol.

## Gofal, cefnogaeth ac arweiniad

5.27 Roedd gan y staff ethos gofalgar a chefnogol a meddylfryd cadarnhaol tuag at eu dysgwyr. Buont yn gweithio'n effeithiol gyda staff gweithredol i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi helaeth y tu allan i'r dosbarth (gweler paragraff 5.3). Cafodd y gwaith hwn effaith fuddiol iawn ar les dysgwyr.

5.28 Defnyddiodd rheolwyr addysg wybodaeth o'r broses ymsefydlu gychwynnol i ganfod, lle bo'n bosibl, anghenion dysgu ychwanegol hysbys y plant a gwybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'w haddysg. Roeddent hefyd wedi cynnal sesiwn ymsefydlu addysg defnyddiol, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar ddyheadau dysgu'r plant, asesiad cychwynnol o sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, a phroffiliwr i nodi amrywiaeth o nodweddion dysgu eraill.

5.29 Defnyddiodd y staff wybodaeth o'r broses ymsefydlu i gynhyrchu cofnod dysgu unigol priodol a oedd yn gweithredu fel llinell sylfaen gyfeirio a dogfen adrodd barhaus, ac a rannwyd yn electronig rhwng staff addysgu a thimau carchar eraill. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd pennu targedau mewn cynlluniau dysgu a gwaith unigol yn ddigon manwl. Nid oedd prosesau i rannu gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr neu'r strategaethau cefnogi ac addysgu y gallai tiwtoriaid eu defnyddio gyda nhw wedi cael eu datblygu. Er enghraifft, nid oedd gan diwtoriaid fynediad syml at systemau TG ac nid oeddent yn gallu rhannu gwybodaeth mor effeithiol ag y gallent.

5.30 Cafodd y dysgwyr gyngor defnyddiol ar y camau nesaf, yr ymyriadau a'r cymorth gan y tîm ailsefydlu, ac arweiniodd hyn at niferoedd uchel yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrchfannau ystyrlon ar ôl cael eu rhyddhau. Defnyddiwyd y broses o ryddhau carcharorion ar drwydded dros dro yn effeithiol er budd ychydig o ddysgwyr i gael mynediad at hyfforddiant neu gyflogaeth berthnasol.

5.31 Gweithiodd staff addysg yn effeithiol gyda staff gweithredol a gweithiwr achos y plentyn i helpu i reoli ymddygiad a lles cyffredinol y dysgwyr. Er enghraifft, mynychodd rheolwyr addysg gyfarfodydd timau amlddisgyblaethol i nodi pa ddysgwyr allai elwa o ymyriadau i'w helpu i reoli eu hemosiynau. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth o ddydd i ddydd am les ac ymddygiad plant unigol bob amser yn cael ei rannu'n effeithiol gyda thiwtoriaid. Roedd hyn yn effeithio ar eu gallu i addasu eu dulliau addysgu yn unol â hynny.

5.32 Adolygodd y rheolwyr amrywiaeth o ddata addysg mewn cyfarfodydd wythnosol i benderfynu a oedd y plant ar y trywydd iawn i gyflawni

canlyniadau eu cymwysterau. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith o ddadansoddi a gwerthuso cynnydd a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

## Arwain a rheoli

5.33 Roedd y ddarpariaeth addysg wedi profi ansicrwydd hir o ganlyniad i'r pontio rhwng darparwyr addysg dan gontract. Arweiniodd hyn at heriau sylweddol, fel colli staff, mynediad at adnoddau, a newidiadau mewn cyfrifoldebau a phrosesau a oedd unwaith yn cael eu deall yn dda. Er gwaethaf hyn, roedd arweinwyr, rheolwyr a staff ar draws y carchar wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn cael mynediad at ddarpariaeth addysg am o leiaf bum awr y dydd.

5.34 Yn ddiweddar, roedd y pennaeth dysgu a sgiliau newydd wedi mynd ati i sefydlogi'r sefyllfa gydag eraill yn y bartneriaeth a thîm rheoli'r carchar. Roedd hi wedi gweithio'n galed i feithrin morâl staff, darparu gweledigaeth glir ac ail-ysgogi ymdeimlad o bwrpas. Mewn cyfnod byr, roedd y pennaeth dysgu a sgiliau wedi dechrau gwaith gwerthfawr i gyflwyno diwylliant o hunanwerthuso gonest. Roedd hyn yn cynnwys prosesau sicrwydd defnyddiol, fel arsylwi ar addysgu a dysgu, adolygiadau o waith dysgwyr ac arolygon dysgwyr, gyda rhai ohonynt yn dechrau darparu tystiolaeth uniongyrchol addas o ansawdd y ddarpariaeth.

5.35 O ganlyniad i'r adolygiadau cychwynnol o ansawdd, roedd y pennaeth dysgu a sgiliau wedi sefydlu'n gyflym iawn y prif gryfderau a meysydd i'w datblygu, e.e. ansawdd yr addysgu, y cwricwlwm a gynigir a'r trefniadau achredu. Roedd hi wedi dechrau blaenoriaethu'r gwaith hwn yn briodol. Er enghraifft, roedd hi eisoes wedi cyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol gyffredinol yn canolbwyntio ar addysgu ac arweinyddiaeth, a system werthuso a gynlluniwyd i gefnogi gwelliannau i ymarfer proffesiynol. Roedd hi hefyd wedi dechrau ailadeiladu cysylltiadau gwerthfawr ar draws timau'r carchar i wella cyfranogiad addysg o ran dyrannu i lwybrau addysg a chynllunio adsefydlu a rhyddhau. Fodd bynnag, roedd hi'n rhy gynnar i farnu effaith llawer o'r gwaith i fynd i'r afael â'r diffygion cychwynnol a nodwyd yn ansawdd y ddarpariaeth neu gyfraniad at ganlyniadau dysgwyr. Er enghraifft, nid oedd anghenion y farchnad lafur yn llywio cynnig y cwricwlwm yn ddigon da, ac nid oedd yr adran addysg yn ymwneud llawer â dyrannu plant i lwybrau, a oedd yn seiliedig ar eu hymddygiad a'u risg yn hytrach na'u hanghenion addysg.

5.36 Roedd arweinwyr yn defnyddio data'n dda i fonitro cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, nid oedd y data'n cael ei ddadansoddi'n ddigon da i gefnogi manylder canfyddiadau'r hunanwerthuso, er enghraifft, ar effaith y ddarpariaeth ar ganlyniadau dysgwyr, gan gynnwys grwpiau o blant, ac amseroldeb eu cynnydd.

5.37 Roedd trefniadau partneriaeth wedi cael eu cryfhau'n ddiweddar ac roedd hyn yn dechrau cael effaith amodol ar y cyfeiriad teithio. Fodd bynnag, 10 mis ar ôl newid contractau, roedd llawer o heriau'r cyfnod pontio yn parhau i gael effaith negyddol ar ansawdd a pharhad y

ddarpariaeth, a chynnydd plant mewn dysgu. Er enghraifft, roedd prinder staff yn parhau, nid oedd systemau data newydd yn cael eu defnyddio na'u deall yn dda, nid oedd gan diwtoriaid fynediad llawn at eu deunyddiau addysgu a chofnodion dysgwyr, ac roedd ansicrwydd ynghylch mynediad at rai adnoddau corfforol. Roedd rhai rheolwyr cwricwlwm yn brwydro yn erbyn materion gweithredol bob dydd, gan ei gwneud yn anodd iddynt fwrw ymlaen ag ansawdd yn strategol.

5.38 Er mwyn gwneud iawn am brinder staff, roedd rheolwyr cwricwlwm o'r ddarpariaeth addysg i oedolion wedi cael eu symud i'r uned blant i sicrhau cynnig addysg dyddiol. Serch hynny, nid oedd staff addysg yn yr uned plant a'r ddarpariaeth addysg i oedolion bob amser yn gweithio'n ddigon da gyda'i gilydd ar y cwricwlwm. Nid oedd gan staff addysg yn yr uned plant lawer o le corfforol i gydweithio, a oedd yn llesteirio eu cyfle i gynllunio a gweithredu cwricwlwm cydlynol. Yn gyffredinol, nid oedd y cwricwlwm na'r trefniadau achredu yn ystyried anghenion a diddordebau addysg, hyfforddiant neu gyflogadwyedd plant yn y dyfodol yn ddigon da. Ar ben hynny, roedd wedi cymryd gormod o amser i'r partneriaid addysgol ymgorffori a manteisio i'r eithaf ar fuddion posibl trefniadau partneriaeth, fel rhannu staff addysgu ac adnoddau, i gryfhau'r ddarpariaeth cwricwlwm a phrofiadau dysgu. Nid oedd strategaeth ddarllen gyffredinol i'r carchar.

# Adran 6 Ailsefydlu

**Mae plant yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac yn cael eu helpu'n effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.**

## Plant, teuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

Canlyniadau disgwyliedig: Mae rheolwyr yn cefnogi plant i sefydlu a chynnal cysylltiad â theuluoedd, gan gynnwys rhieni corfforaethol, a ffynonellau cymorth eraill yn y gymuned. Mae partneriaid cymunedol yn gyrru hyfforddiant a chynllunio remand, ac mae teuluoedd yn rhan o'r holl benderfyniadau mawr am blant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

6.1 Roedd tua dwy ran o dair o blant yn cael eu cadw dros 50 milltir o ardal eu cartref. Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil hyn, parhaodd y Parc i ddarparu cymorth effeithiol i blant i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd, gan gynnwys cefnogaeth ragorol gan y gweithwyr cyswllt teulu.

6.2 Yn ein harolwg, dywedodd 94% o blant fod rhywun wedi'u helpu i gadw mewn cysylltiad â theulu neu ffrindiau, a bod 75% o'r rheini a ddywedodd eu bod wedi cael ymweliadau wedi'u cael o leiaf unwaith yr wythnos, o'u cymharu â dim ond 26% mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc tebyg.

6.3 Defnyddiwyd ymweliadau cymdeithasol a galwadau fideo diogel yn helaeth. Ar ôl dadansoddi data ac ymgynghori â theuluoedd, roedd amserlen yr ymweliadau cymdeithasol wedi cael ei newid ac erbyn hyn roedd cyfnodau dwy awr yn y bore a'r prynhawn ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd a oedd yn teithio pellteroedd hir gan y gallent aros gerllaw dros nos ac ymweld ar y ddau ddiwrnod. O ganlyniad, bu cynnydd mawr yn nifer yr ymweliadau cymdeithasol, gyda dros 670 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 195 yn ein harolygiad diwethaf.




**Y ganolfan ymwelwyr (chwith) a’r neuadd ymweliadau**

6.4 Roedd y carchar bellach yn gwneud gwell defnydd o’r lolfa deulu, a oedd yn darparu amgylchedd mwy hamddenol gyda soffas ac ardal gemau i blant iau. Defnyddiwyd yr ystafell hon ar gyfer diwrnodau teulu misol ac ar gyfer ymweliadau mwy preifat rhwng plant a’u brodyr a’u chwiorydd neu eu plant eu hunain.




**Y lolfa deulu**

6.5 Roedd nifer y galwadau fideo diogel hefyd wedi cynyddu ac roedd dros 1,500 wedi bod yn ystod y 12 mis diwethaf o’i gymharu â 1,303 yn ein harolygiad diwethaf. Yn ein harolwg, roedd 92% o’r rheini a oedd wedi cael galwadau fideo diogel yn eu cael o leiaf unwaith yr wythnos, o’i gymharu â’r cymharydd, sef 28%. Trefnwyd amser galwadau’n hyblyg i gyd-fynd ag argaeledd teuluoedd.

6.6 Roedd yr holl waith teulu yn seiliedig ar anghenion unigol y plant. Er enghraifft, roedd y rheini a oedd yn dadau yn cael eu cefnogi i gynllunio’r amser roedden nhw wedi’i dreulio gyda’u plentyn drwy wneud gweithgareddau penodol a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau magu plant, fel dysgu siapiau a hwiangerddi. Lle bo’n briodol, roedd teuluoedd hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio ac

adolygu dedfrydau a chawsant eu gwahodd i fynychu digwyddiadau dathlu ar gyfer plant a gwblhaodd Wobrau Dug Caeredin.

## Cyn-rhyddhau ac ailsefydlu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau neu drosglwyddo plentyn yn dechrau pan fydd yn cyrraedd y sefydliad. Mae ailsefydlu yn sail i waith y sefydliad cyfan, wedi'i gefnogi gan bartneriaethau strategol yn y gymuned ac wedi'i lywio gan asesiad o risg ac anghenion y plentyn. Mae cynllunio parhaus yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r gymuned.

6.7 Er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar y boblogaeth yn yr ystâd oedolion, roedd 35% o'r rheini a oedd yn cael eu dal yn y Parc yn 18 oed erbyn hyn. Cafodd tua hanner y plant eu dedfrydu neu eu galw'n ôl; ni chafodd y gweddill eu dedfrydu.

6.8 Cafodd pob plentyn, gan gynnwys y nifer fach sy'n bwrw dedfrydau hir neu amhenodol, gefnogaeth dda iawn gan weithiwr achos y tîm anghenion, ymgysylltu a llesiant (NEWT). Roedd y rhan fwyaf o NEWTs yn brofiadol, yn hygyrch i blant ac yn gwybod am y rhai yr oeddent yn eu cefnogi'n dda iawn. Pan ofynnwyd i blant yn ein harolwg beth oedd y peth mwyaf cadarnhaol iddyn nhw am y Sefydliad Troseddwyr Ifanc, dywedodd un:

"... cael cefnogaeth gan staff a gweithwyr NEWT".

6.9 Roedd cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC) a phrosesau rhyddhau cynnar yn cael eu rheoli'n weddol dda, ond roedd rhywfaint o oedi i ychydig o blant. Roedd un plentyn wedi cael ei ryddhau bron i chwe mis ar ôl ei ddyddiad cymhwyso ar gyfer HDC oherwydd problemau yn dod o hyd i lety mewn da bryd. Roedd hyn yn siomedig o ystyried y cynnydd da a wnaeth y plentyn yn ystod ei gyfnod yn y Parc.

6.10 Roedd y defnydd o ryddhad ar drwydded dros dro (ROTL) wedi cynyddu a chafwyd 26 achos ar gyfer tua 10 o blant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â dau yn ystod y chwe mis cyn ein harolygiad diwethaf. Roedd ROTL hebryngol yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd ac ailintegreiddio. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi'i ddefnyddio i ymweld ag eiddo cymeradwy, ac roedd plentyn arall wedi cwblhau prawf gyrru theori. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oedd rhai asesiadau risg ROTL yn cynnwys dadansoddiad a dim ond rhestru ymyriadau yr oedd y plentyn wedi'u cwblhau yn hytrach na rhoi sylwadau ar eu hymddygiad neu agweddau cyffredinol a oedd yn dangos unrhyw ddysgu. Ar ben hynny, nid oedd yr asesiadau'n ystyried yr ystod o wybodaeth a oedd yn cael ei gadw gan adrannau eraill i lywio'r gwaith o reoli risg, yn benodol bod cyfraniadau gan dimau troseddau ieuenctid yn aml yn absennol.

6.11 Fel rhan o’r cynnig cyfoethogi rhagorol (gweler paragraff 5.3), roedd pum plentyn hefyd wedi defnyddio ROTL hebryngol i gwblhau gwobr efydd Gwobr Dug Caeredin, a oedd yn cynnwys taith gerdded dros nos. Gwahoddwyd teuluoedd i fynychu digwyddiadau dathlu ar ôl cwblhau’r wobr, a oedd yn gadarnhaol (gweler paragraff 6.6).

6.12 Roedd diwrnodau agored ar gyfer timau troseddau ieuenctid (YOTs), sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros blant yn y gymuned, wedi cael derbyniad da ac wedi helpu’r carchar i feithrin perthynas â phartneriaid cymunedol. Yn y digwyddiadau hyn, cafodd yr ymarferwyr daith a chyfarfod â staff o wahanol adrannau.

## Cynllunio hyfforddiant a rheoli remand

Canlyniadau disgwyliedig: Mae gan bob plentyn gynllun rheoli remand neu hyfforddiant sy’n seiliedig ar asesiad unigol o risg ac angen. Mae staff perthnasol yn cydweithio â phlant a’u rhieni neu ofalwyr i lunio ac adolygu eu cynlluniau. Mae’r cynlluniau’n cael eu hadolygu’n rheolaidd a’u rhoi ar waith drwy gydol amser plentyn yn y ddalfa er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i’r gymuned.

6.13 Dyrannwyd gweithiwr achos NEWT i newydd-ddyfodiaid (gweler paragraff 6.8), gan gwrdd yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd. Roedd y cyswllt rhwng plant a’u gweithiwr achos yn ystyrlon, gyda gweithwyr achos yn herio safbwyntiau'r plant yn briodol pan oedd angen. Roeddent yn annog plant i fod yn eiriolwyr drostynt eu hunain yn ystod cyfarfodydd adolygu, ac roedd tystiolaeth bod y gwaith i gwrdd â nodau cynllunio dedfrydau a remand yn cael ei wneud ar y cyd ac ochr yn ochr â phlant. Roedd tystiolaeth o’r gwaith hwn ar gofnodion fframwaith ymgeisio cyfiawnder ieuenctid (YJAF, gweler Geirfa) yn rhagorol ac yn enghraifft o ymarfer da.

6.14 Yn ein harolwg, dywedodd 100% o’r plant a ddywedodd fod ganddynt gynllun ar gyfer eu cyfnod yn y carchar eu bod yn deall yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau, a bod staff yn eu cefnogi i gyflawni’r rhain. Roedd ein cyfweliadau yn cefnogi hyn; roedd y plant yn hynod gadarnhaol am eu gweithwyr achos NEWT, gan eu disgrifio fel rhai cefnogol a defnyddiol.

6.15 Cynhaliwyd cyfarfodydd cynllunio dedfrydau a remand yn rheolaidd ac roedd y plant yn deall beth oedd angen iddynt ei wneud i gyflawni eu hamcanion. Yn y 12 achos a adolygwyd gennym, cwblhawyd asesiadau i safon dda ac roeddent yn rhoi sylwadau ar ffactorau fel anaeddfedrwydd, grwpiau cyfeillgarwch a’r amgylchedd fel cyfranwyr posibl at droseddu. Roedd y cofnodion yn dangos lefel dda o gyswllt â Thimau Troseddau Ieuenctid, ac yn ein cyfweliadau, cadarnhaodd y plant fod gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd cynllunio’n rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad da. Lle’r oedd hynny’n briodol, roedd teuluoedd hefyd yn cael eu hannog i fynychu.

6.16 Roedd y rhan fwyaf o'r trawsnewidiadau a gynlluniwyd ar gyfer plant o'r Parc i'r ystâd oedolion yn cael eu rheoli'n weddol dda. Dechreuodd y gwaith cynllunio chwe mis ar ôl i'r plentyn droi'n 18 oed, ac roedd y penderfyniadau ynghylch pa garchardai i'w hystyried yn amlddisgyblaethol ac yn aml yn cynnwys aelodau o'r teulu. Symudodd y rhan fwyaf o blant mewn digon o amser, ond roedd y broses ar gyfer rhai yn rhwystredig oherwydd gwrthodiadau o'r ystâd oedolion. Mewn un achos, gwrthodwyd symud plentyn gan dri charchar i oedolion, a oedd yn golygu oedi o tua phum mis cyn iddo drosglwyddo.

6.17 Cyn trosglwyddo, rhannodd y Parc wybodaeth gyda'r carchar i oedolion a, lle bo'n bosibl, siaradodd rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs) yn uniongyrchol â'r person ifanc dros y ffôn. Roedd gan weithwyr achos NEWT gysylltiad da â gwasanaethau oedolion, gan gynnwys y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, roedd y diffyg mynediad at OASys (system asesu troseddwyr) yn cyfyngu ar allu'r Parc i rannu'r wybodaeth helaeth am blant a gofnodwyd ar YJAF gyda'r safleoedd oedolion.

## Diogelu'r cyhoedd

6.18 Nodwyd plant a oedd â phryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd ar ôl cyrraedd ac roedd cyswllt prydlon â'r Timau Troseddau Ieuenctid i sefydlu risgiau ac anghenion. Adeg yr arolygiad, roedd 11 o blant yn destun trefniadau diogelu'r cyhoedd aml-asiantaeth (MAPPA), cynnydd o saith yn yr arolygiad diwethaf. Roedd pob un ohonynt angen rheolaeth ar y lefelau risg uwch, a oedd yn golygu bod angen cynnwys llawer o asiantaethau, fel yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r YOTs, er mwyn rheoli'r risg o niwed.

6.19 Er gwaethaf rhywfaint o gyfathrebu gweithredol rhwng Timau Troseddau Ieuenctid a'r carchar, nid oedd lefelau MAPPA wedi'u cadarnhau ar gyfer nifer fach o blant cyn eu rhyddhau; roedd angen i reolwyr fynd i'r afael â'r broblem hon. Roedd cyfraniadau ysgrifenedig o'r carchar i gyfarfodydd MAPPA yn y gymuned yn ddigonol, ond roedd rhai heb ddadansoddiad o risg, er gwaethaf gwybodaeth helaeth NEWTs am y plant roeddent yn eu rheoli.

6.20 Roedd y cynlluniau rheoli risg a welsom o ansawdd da ac yn ystyried materion cyfredol, yn y dyfodol, yn y ddalfa ac yn y gymuned. Adolygwyd y cynlluniau gydag asiantaethau eraill cyn eu rhyddhau.

6.21 Ychydig iawn o blant oedd angen eu monitro o ran galwadau ffôn neu bost. Yn yr ychydig enghreifftiau a adolygwyd gennym, roedd y monitro'n amserol ar y cyfan, ac roedd recordiadau ar gael yn rhwydd i NEWTs i lywio'r gwaith o reoli risg.

## Plant ar ddedfrydau amhenodol a phlant ar ddedfrydau hir

6.22 Roedd tri phlentyn yn bwrw dedfrydau hir o dros bedair blynedd neu ar remand am droseddau a allai gario dedfrydau hir. Cafodd pob un ohonynt gefnogaeth dda gan eu gweithiwr achos YOT a NEWT (gweler paragraff 6.8) a oedd yn eu hatgoffa'n rheolaidd am eu ROTL yn y

dyfodol neu eu dyddiadau cymhwysedd parôl i'w hannog i barhau i fod yn llawn cymhelliant. Roedd rhywfaint o fentora gan garcharor a aseswyd o ran risg ar safle oedolion yn y Parc newydd ailddechrau, ond nid oedd yn ffocysu eto ar gefnogi plant ar ddedfrydau hir.

**Plant sy'n derbyn gofal**

6.23 Yn ein harolwg, dywedodd 75% o blant eu bod wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol. Roedd y gweithiwr cymdeithasol dynodedig wedi dychwelyd i'r Parc ac, erbyn hyn, roedd yn hwyluso adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (LAC), a oedd yn cael eu mynychu'n dda. Roeddent hefyd yn herio awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hawliau o ran dillad ac arian, er bod gwahaniaethau mawr yn yr hyn oedd ar gael gan awdurdodau lleol; er enghraifft, tra bod Swydd Gaerloyw a Chaerdydd yn rhoi £20 yr wythnos i'w plant, cafodd plant sy'n derbyn gofal gan Gasnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr £5 yr wythnos. Nid oedd digon o blant sy'n derbyn gofal yn cael cyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd gan weithiwr cymdeithasol o'u hawdurdodau lleol cartref.

## Cynllunio ailintegreiddio

Canlyniadau disgwyliedig: Mae anghenion ailsefydlu plant yn cael sylw cyn eu rhyddhau. Defnyddir ymateb amlasiantaeth effeithiol i ddiwallu anghenion penodol pob plentyn unigol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

6.24 Roedd gan bob plentyn lety i fynd iddo ar ôl gadael y Parc. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aeth 18 o'r 34 o blant a ryddhawyd i fyw gyda theulu yn y gymuned ac aeth yr 16 arall i gartrefi plant neu lety â chymorth. Roedd gan y rhan fwyaf o blant gyfeiriad rhyddhau wedi'i gadarnhau mewn da bryd ar gyfer eu rhyddhau.

6.25 Aeth chwe deg wyth y cant o'r plant a ryddhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Roedd sicrhau lleoliad ar gyfer pobl ifanc 18 oed yn anoddach ac, o ganlyniad, roedd y canlyniadau ar eu cyfer yn llai cadarnhaol. Roedd pedwar o'r rhai a ryddhawyd o'r Parc a oedd i gyd yn 18 oed heb addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i fynd iddynt; cafodd pob un ohonynt eu dyrannu i'r gwasanaeth prawf.

6.26 Ers mis Chwefror 2023, roedd arweinwyr wedi datblygu'r cymorth gofal drwodd a oedd ar gael gan NEWTs i blant ar ôl cael eu rhyddhau ac roedd tystiolaeth o rai canlyniadau cadarnhaol. O'r rhai a ryddhawyd, cysylltwyd ag 19 o blant dros y ffôn neu drwy alwad fideo ac, o'r rhain, trefnwyd naw ymweliad cartref neu gyfarfod proffesiynol yn y gymuned. Roedd hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i'r rheini a gafodd eu rhyddhau o'r Parc nad oeddent yn cael unrhyw gyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth prawf ac roedd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt i gysylltu ag asiantaethau.

## Ymyriadau

Canlyniadau disgwyliedig: Mae plant yn gallu cyrchu ymyriadau sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo adsefydlu llwyddiannus.

6.27 Roedd digon o raglenni ymddygiad troseddol ar gyfer plant oedd eu hangen. Mae'r tîm seicoleg bellach wedi cyd-gyflwyno rhai ymyriadau achredededig gyda NEWTs, a oedd yn ddatblygiad cadarnhaol. Cafodd anghenion y boblogaeth yn y Parc eu hadolygu'n rheolaidd i benderfynu ar yr ymyriadau mwyaf priodol i'w trefnu ar gyfer y misoedd nesaf.

6.28 Yn ddiweddar, cwblhaodd NEWTs y grŵp cyntaf o '*Feeling It*' (ymyriad a gynlluniwyd i helpu plant i adnabod a rheoli eu hemosiynau) gyda phump o blant. Roedd y tîm seicoleg wedi darparu '*Life Minus Violence*' (ymyriad un-i-un ar gyfer y rhai sydd â'r lefel uchaf o risg o drais) a '*Timewise*' (wedi'i anelu at blant sy'n ymwneud â thrais yn y ddalfa) i ddau blentyn.

### Iechyd, gofal cymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau

6.29 Bu staff gofal iechyd yn cysylltu â gweithwyr NEWT cyn rhyddhau plentyn i sicrhau bod cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol ar waith. Lle bo'n briodol, rhoddwyd meddyginiaeth i'r plant fynd adref, a derbyniodd pob un ohonynt grynodeb o'u gofal i'r meddyg teulu.

# Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf

## Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer sefydliad iach.

## Diogelwch

**Mae plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf o STIEF y Parc yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

**Argymhellion**
Ni ddylid cynnal gwiriadau arsylwadol ar blant ar adegau rhagweladwy. (Argymhelliad ailadroddol)
**Heb ei gyflawni**

Dylai rheolwyr sicrhau bod ôl-drafodaethau yn dilyn digwyddiadau ffrwyno yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol i blant.
**Cyflawnwyd**

## Care

**Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf o STIEF y Parc yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

**Argymhellion allweddol**

Ni ddylid anfon plant sydd angen mynd i'r ysbyty i'r carchar fel man diogel.
**Heb ei gyflawni**

Dylai arweinwyr oruchwylio gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol bob amser a dylid craffu'n drylwyr ar ddata, gan ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig.
**Heb ei gyflawni**

**Argymhellion**

Dylai ffenestri fod yn rhydd o graffiti a baw, a dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr offer awyru sydd wedi torri.
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r ymgynghoriad gynnwys barn pob plentyn a dylid mynd i'r afael â chamau gweithredu mewn modd amserol.
**Cyflawnwyd**

Dylai plant gael mynediad at ystod ehangach o ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys therapi iaith a lleferydd.
**Heb ei gyflawni**

Dylai Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed (FACTS) gyfrannu at y system cofnodion clinigol yn y carchar i sicrhau bod un cofnod cynhwysfawr o asesiadau, gofal a thriniaeth ar gyfer y plant sydd dan ei ofal.
**Heb ei gyflawni**

Dylai plant gael mynediad at driniaethau lleddfu poen yn brydlon dros y penwythnos a thros nos.
**Heb ei gyflawni**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf o STIEF y Parc yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

**Dim argymhellion**

## Ailsefydlu

**Mae plant yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac yn cael eu helpu'n effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.**

Yn yr arolygiad diwethaf o STIEF y Parc yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i blant yn dda yn erbyn y prawf sefydliad iach hwn.

**Argymhellion allweddol**

Dylai'r uned gynnwys gweithiwr cymdeithasol penodedig, ar y safle.
**Cyflawnwyd**

Dylid cael ystod briodol o gefnogaeth i gwrdd â risgiau ac anghenion plant sy'n bwrw dedfrydau amhenodol neu hir.
**Cyflawnwyd**

# Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai plant, y profion yw:

> **Diogelwch**
> Mae plant, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel.
>
> **Gofal**
> Mae'r plant yn cael gofal gan staff ac yn cael eu trin â pharch o ran eu hurddas dynol.
>
> **Gweithgarwch pwrpasol**
> Mae plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.
>
> **Ailsefydlu**
> Mae'r plant yn cael eu helpu'n effeithiol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer plant ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) roi sylw iddynt.

> **Mae'r canlyniadau i blant yn dda.**
> Does dim tystiolaeth bod y canlyniadau i blant yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae'r canlyniadau i blant yn eithaf da.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i blant mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i blant yn ddigon da.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau plant mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd fwyaf pwysig i'w lles. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i blant yn wael.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn ddifrifol ar ganlyniadau plant gan arferion cyfredol. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder.** Mae pryderon allweddol yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae plant yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon blaenoriaethol yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon blaenoriaethol eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i blant; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon plant a staff; trafodaethau â phlant; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys craffu ar argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru ar y cyd ag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC). Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif bryderon a'r pryderon blaenoriaethol yn dilyn yr arolygiad, a'n safbwyntiau yn erbyn y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn

erbyn ein *Disgwyliadau*. *Criteria for assessing the treatment of children and conditions in prisons* (Fersiwn 4, 2018) (ar gael ar ein gwefan yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/our- expectations/prison-expectations/). Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o blant a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Adnoddau Pellach). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd yna mai hap sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mewn canlyniadau.

**Y Tîm Arolygu**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

| | |
|---|---|
| Martin Lomas | Dirprwy Brif Arolygydd |
| Angus Jones | Arweinydd y Tîm |
| David Foot | Arolygydd |
| Angela Johnson | Arolygydd |
| Esra Sari | Arolygydd |
| Becca Stanbury | Arolygydd |
| Dionne Walker | Arolygydd |
| Helen Downham | Ymchwilydd |
| Emma King | Ymchwilydd |
| Alex Scragg | Ymchwilydd |
| Sarah Goodwin | Arolygydd Iechyd |
| Tania Osborne | Arolygydd Iechyd |
| Mamta Arnott | Arolygydd Estyn |
| Steve Bell | Arolygydd Estyn |
| Penny Lewis | Arolygydd Estyn |

# Atodiad II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

**AssetPlus**
Dogfennau asesu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, syn cael eu llenwi gan dimau troseddau ieuenctid.

**Llety arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**
CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl lety ardystiedig mewn sefydliad, ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y weithdrefn a gynlluniwyd yn briodol.

**Cynlluniau cymorth, her ac ymyrraeth (CSIPs)**
Caiff CSIPs eu defnyddio i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli gan CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn yr ystâd ieuenctid yn y ddalfa. Byddwn yn cyfeirio ein naratif ar lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**Nodweddion gwarchodedig**
Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

**Rheol 49 Rheolau Canolfan Gadw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc**
Yn awdurdodi plant i gael eu gwahanu oddi wrth y brif boblogaeth.

**Galwadau fideo diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn lawrlwytho ap i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys.

**Amser allan o'r gell**
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd plant allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

**Fframwaith ymgeisio cyfiawnder ieuenctid (YJAF)**
Llwyfan ar-lein a ddefnyddir yn unig gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'r ystadau diogel i gyfathrebu'n effeithiol (gan gynnwys rhannu asesiadau AssetPlus a chofnodion rheoli achosion) ac i lawrlwytho dogfennau a thempledi ffurfiol.

# Atodiad III Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi'u hargraffu a ddosberthir i'r sefydliad). Dyma'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

## Proffil poblogaeth y sefydliad

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

## Arolwg o blant – methodoleg a chanlyniadau

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r plant ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

## Arolwg staff y sefydliad

Gwahoddir staff y sefydliad i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2024

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.